

Diwygio cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r
ymgyngoriad

Cyflwynwyd i Cymwysterau Cymru gan
Ymchwil Arad

Chwefror 2021



ymchwil
arad
research

Cynnwys

Geirfa	3
Crynodeb Gweithredol	4
1. Cyflwyniad	14
1.1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad	14
1.2 Dull dadansoddi	15
1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn	15
2. Themâu cyffredinol	17
3. Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch	19
3.1 Cynnig 1	19
4. Y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Newydd	23
4.1 Cynnig 2	23
4.2 Cynnig 3	26
4.3 Cynnig 4	30
4.4 Cynnig 5	35
4.5 Cynnig 6	38
4.6 Cynnig 7	43
4.7 Cynnig 8	46
4.8 Cynnig 9	50
4.9 Cynnig 10	53
5. Aseiad Effaith Integredig	57
5.1 Aseiad Effaith Rheoleiddiol	57
5.2 Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	59
5.3 Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg	61
6. Y camau nesaf	64

Geirfa

Term	Disgrifiad
AB	Addysg Bellach
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AU	Addysg uwch
Bag. Cymru	Bagloriaeth Cymru (defnyddir BC weithiau mewn dyfyniadau i gyfeirio at y fframwaith hwn)
CA3	Cyfnod Allweddol 3
CA4	Cyfnod Allweddol 4
GFU	Graddfa Farcio Unffurf: fe'i defnyddir yn rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer adrodd, cofnodi a chydgrynhoi marciau cydrannol ymgeiswyr.
NDC (y CU)	Nodau Datblygu Cynaliadwy (y Cenhedloedd Unedig)
SAU	Sefydliad addysg uwch
TAG	Tystysgrif Addysg Gyffredinol
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
THS Uwch	Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (defnyddir THSU weithiau mewn dyfyniadau i gyfeirio at y cymhwyster hwn)
UCAS	Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad cyhoeddus Cymwysterau Cymru, 'Sgiliau'r Dyfodol', a gynhaliwyd rhwng 21 Medi a 13 Tachwedd 2020.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd Cymwysterau Cymru am sylwadau ar newidiadau arfaethedig i gymhwyster y THS Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn, 'Sgiliau'r Dyfodol', a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig [ar gael ar-lein ar wefan Cymwysterau Cymru](#).

Cafodd Cymwysterau Cymru **428 o ymatebion** i'r ymgynghoriad. Ymchwil Arad a ddadansoddodd yr holl ymatebion ar ran Cymwysterau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- dadansoddi ymatebion i'r 10 'cwestiwn caeedig', a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion; ac
- adolygu'r sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i esbonio eu hatebion i bob un o'r 10 cwestiwn caeedig a chategoreiddio'r wybodaeth hon yn ôl themâu cyffredinol.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg byr o ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn. Cyflwynir canfyddiadau manwl yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Drwy'r holl adroddiad, daw'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ac nid ydynt yn cynrychioli barn Cymwysterau Cymru nac awduron yr adroddiad.

Themâu cyffredinol

Nododd y dadansoddiad themâu cyffredinol a rheolaidd a godwyd gan yr ymatebwyr ar draws nifer o gwestiynau.

Yn ôl yr ymatebwyr:

- Byddai'r cynigion yn helpu i sefydlu cymhwyster sy'n **gliriach** i ddysgwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid;
- Mae gan y cynigion y potensial i fod o fudd i ddysgwyr drwy wneud y cymhwyster yn fwy **hydrin a diddorol**;
- Gallai'r cynigion **leihau'r baich gwaith** sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster o safbwynt ymarferwyr;
- Mae'r trefniadau presennol yn rhoi rhai dysgwyr o dan anfantais ac mae'n bosibl y byddai'r cynigion ar gyfer y THS Uwch newydd yn **decach** er mwyn i bob dysgwr o bob lefel gallu ddatblygu ac arddangos ei sgiliau;
- Byddai'r cynigion yn helpu dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso **sgiliau sy'n werthfawr ac yn berthnasol** i ddysgu parhaus a chyflogaeth yn y dyfodol; ac
- Mae'r cynigion – gan gynnwys y ffocws ar y pedwar o Sgiliau Cyfannol – yn **cyd-fynd â phedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru** ac yn rhoi parhad i ddysgwyr.


Nododd ymatebwyr hefyd nifer o faterion mynych y mae gofyn eu hystyried ymhellach, megis yr angen am ragor o **ganllawiau i gefnogi gweithredu'r** THS Uwch, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am y dull asesu arfaethedig.

Mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryderon y gallai'r cynigion ostwng gwerth y cymhwyster drwy **gael gwared ar frand Bagloriaeth Cymru** a thrwy arwain at **ddiffyg manylrwydd tybiedig a diffyg cydraddoldeb** â chymwysterau lefel 3 eraill.

Crynodeb o'r ymatebion

Bu'r ymatebwyr yn nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o gynigion Cymwysterau Cymru ac yn rhoi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn ymhellach. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

Cynnig 1. Dylid dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Byddai'n gwneud y cymhwyster yn gliriach i ddysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid ei ddeall;
- Roedd y system bresennol yn rhoi rhai dysgwyr dan anfantais os nad oeddent wedi pasio fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch oherwydd eu canlyniadau arholiadau eraill;
- Byddai'r THS Uwch yn cael ei gwerthfawrogi a'i chydabod yn fwy fel cymhwyster annibynnol; a
- Byddai'n lleihau'r baich gwaith sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, gan ei wneud yn fwy hydrin i ddysgwyr ac athrawon.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, yn ymwneud yn bennaf â gweithredu'r THS Uwch. Roedd y rhain yn cynnwys nodi'r angen am hyfforddiant i staff o ran cyflenwi'r cymhwyster a'r canllawiau sy'n ymwneud â chyflenwi.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Ei bod yn bwysig cadw brand Bagloriaeth Cymru, a oedd wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei gydnabod gan randdeiliaid, yn eu barn hwy;
- Mae Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch o fudd arbennig i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol;
- Mae Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch yn ategu'r THS Uwch; a
- Dylai fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch a'r THS Uwch fod yn ddewisol.

Cynnig 2. Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Ei bod yn bwysig bod y THS Uwch yn parhau i fod yn gymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau;
- Maent yn croesawu ffocws ar gyd-destunau sy'n berthnasol i ddysgwyr;
- Byddai'n helpu i gefnogi dilyniant dysgwyr i addysg uwch, cyflogaeth a dinasyddiaeth;
- Roedd yn fuddiol i ddiben y THS Uwch gydredeg â'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cwricwlwm newydd i Gymru;
- Roedd yn adlewyrchu'r ffordd yr oedd y THS Uwch eisoes yn cael ei chyflenwi; a
- Byddai'r newidiadau'n gwneud y THS Uwch yn symlach.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Materion yn ymwneud â gweithredu'r cynnig, megis awydd am fwy o arweiniad ynghylch y cyd-destunau perthnasol, gweithgareddau cynllunio ac asesu; a
- Sicrhau rôl flaenllaw i ddysgwyr wrth lunio eu cyfranogiad yn y cymhwyster.

Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am:

- Nad oeddent yn gwerthfawrogi'r THS Uwch; ac
- Roeddent yn teimlo y dylai'r sgiliau gael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm yn hytrach na chael eu haddysgu mewn cymhwyster annibynnol.

Cynnig 3. Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu a dangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Bod y nodau datblygu cynaliadwy a nodau llesiant Cymru yn bwysig ac yn berthnasol i fywydau dysgwyr;
- Byddai'r pwyslais ar y nodau yn helpu i gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithgar, gan sicrhau felly fod y THS Uwch yn cydredeg a'r Cwricwlwm newydd i Gymru; a

- Byddai cynnwys y nodau yn helpu i wahaniaethu rhwng y THS Uwch a'r THS Genedlaethol/Sylfaen ac yn rhoi mwy o ymdeimlad o ddilyniant i ddysgwyr rhwng Cyfnod Allweddol 4 ac addysg ôl-16.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Yr angen i gadw digon o hyblygrwydd i ddysgwyr ddewis eu pynciau eu hunain;
- Awydd am ganllawiau pellach i gefnogi'r gweithredu, megis manylu ar berthnasedd y cyd-destunau dysgu i bob cydran, adnoddau a phrosesau asesu;
- Byddai cyfeirio at nodau a fframweithiau strategol eraill o fewn y THS Uwch yn gwella'r cynigion; a
- Gellid gwneud hyn heb ailwampio'r cymhwyster, gan nodi bod y nodau hyn eisoes yn ffocws allweddol i'r ffordd y cyflenwir y THS Uwch.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Na fyddai'r NDC a'r nodau llesiant yn gwella'r THS Uwch am eu bod yn rhy eang ac am na fyddent yn cael eu deall yn eang; a
- Dylai'r THS Uwch ganolbwyntio ar sgiliau yn hytrach na chynnwys.

Cynnig 4. Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair. Y tair cydran i'w cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod:

- **Cydran 1 - Prosiect Cymuned Fyd-eang**
- **Cydran 2 - Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol**
- **Cydran 3 - Prosiect Unigol**



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Byddai lleihau nifer y cydrannau yn gwella lles dysgwyr drwy leihau baich gwaith a straen, a thrwy hynny'n gwella parodrwydd dysgwyr i ymgymryd â'r cymhwyster;
- Byddai'n gwneud y cymhwyster yn fwy hydrin i athrawon ac yn symleiddio strwythur cyflenwi'r cymhwyster;
- Byddai'n lleihau dyblygu ac ailadrodd o ran dysgu ac asesu;
- Byddai'n sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi diben y cymhwyster;
- Byddai'n gwella dealltwriaeth dysgwyr o bob cydran ac yn gwella datblygiad eu sgiliau, gan gefnogi dysgwyr i gyflawni gwell canlyniadau; a
- Bod yr agweddau penodol hynny'n ymddangos yn rhesymol, yn enwedig y cynigion i gyflwyno'r Prosiect Cymuned Fyd-eang a Phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:


- Ystyriaethau ymarferol o ran gweithredu'r cynnig hwn, megis beth yn union y byddai'r cydrannau diwygiedig yn ei gynnwys;
- Mynegi rhai amheuan ynghylch elfen benodol, yn enwedig sut mae'r Her Gymunedol yn werthfawr ac na ddylid ei cholli yn ystod y cyfnod pontio neu gwestiynu sut byddai cyfuno'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol yn gweithio'n ymarferol; a
- Mynegi gwahaniaeth barn ar rai o'r newidiadau terminoleg, yn enwedig defnyddio'r term 'Prosiect'.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Byddai'n mentro lleihau cynnwys ac oriau dysgu cyffredinol y cymhwyster yn ormodol;
- Dim ond yng Nghyfnod Allweddol 4 y bu hydrinedd y cymhwyster yn broblem, nid yng Nghyfnod Allweddol 5; a
- Mynegwyd pryder ynghylch elfennau penodol o'r cynnig, er enghraifft y byddai elfennau gwerthfawr o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol yn cael eu gwahanu pe baent yn cael eu cyfuno'n un Prosiect Cymuned Fyd-eang.

Cynnig 5. Dylai tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

- **Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%**
- **Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%**
- **Prosiect Unigol – 50%**



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Dylai'r Prosiect Unigol gyfrannu 50% o'r cymhwyster cyffredinol gan ei fod yn gofyn i ddysgwyr ddangos sgiliau astudio annibynnol gwerthfawr;
- Mae'r pwysoliad yn cynrychioli cydbwysedd mwy priodol rhwng cydrannau na'r THS Uwch bresennol;
- Byddai'n haws i athrawon a dysgwyr ei ddeall;
- Byddai diddordeb dysgwyr yn y THS Uwch yn gwella pe byddent yn deall yn union sut mae'r ymdrech a roddant i bob un yn cyfrannu at eu gradd derfynol; a
- Byddai'n darparu strwythur dilyniant clir dros gwrs dwy flynedd.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:


- Ansawdd a maint y gwaith a ddisgwyd yn rhan o'r pwysoliadau hyn; a
- Sut y byddai pob un o'r cydrannau hyn yn cael eu hasesu, gan gynnwys pa mor drylwyr fyddai'r broses asesu ar gyfer pob cydran.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo y byddai pwysoliadau amgen yn fwy priodol, er enghraifft:

- Y dylid pwysoli'r tair cydran i gyd yn gyfartal er mwyn annog ymrwymiad cyfartal gan ddysgwyr ym mhob cydran; neu
- Na ddylai'r Prosiect Unigol gyfrannu 50% at y cymhwyster gan nad yw cryfderau dysgwyr bob amser efallai'n perthyn i astudiaeth annibynnol.

Cynnig 6. Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol canlynol:

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau;
- Creadigrwydd ac Arloesedd;
- Cynllunio a Threfnu; ac
- Effeithiolrwydd Personol.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Mai'r rhain oedd y sgiliau a werthfawrogir fwyaf gan gyflogwyr ac y byddai canolbwyntio ar sgiliau trosglwyddadwy yn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer y gweithle;
- Byddai'r pedwar o Sgiliau Cyfannol yn cefnogi dilyniant i addysg uwch;
- Byddai lleihau'r sgiliau i'w hasesu yn symleiddio'r broses ar gyfer athrawon;
- Byddai cyfyngu asesu i'r pedwar o Sgiliau Cyfannol yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio'n fanylach ar eu datblygiad yn y meysydd hyn; a
- Mae'r pedwar o Sgiliau Cyfannol yn gyson â nodau a gweledigaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru.


Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Yr angen i ystyried ymhellach y trefniadau ar gyfer asesu'r pedwar o Sgiliau Cyfannol;
- Yr angen i ymgynghori ag ymarferwyr ar ddatblygu fframwaith asesu a chanllawiau pellach, gan sicrhau na ddaw asesu'n ormod o beth i ymarferwyr a dysgwyr;
- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i barhau i asesu llythrennedd a rhifedd; a
- Hyrwyddo sgiliau ychwanegol, gan gynnwys cyfathrebu, gwaith tîm, rheoli ariannol a sgiliau dwyieithog.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Drwy beidio ag asesu llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn benodol rhagor, gellir dibrisio a beirniadu'r cymhwyster newydd am ddiffyg manylrwydd;
- Bod peidio ag asesu'r sgiliau craidd yn mentro niweidio ei enw da yn 'gymhwyster Lefel 3 sy'n deilwng yn academiaidd'; a
- Dylai'r sgiliau hyn gael eu hymgorffori a'u datblygu o fewn pynciau craidd.

Cynnig 7. Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r sgiliau hyn fod yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni ddylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Dylid datblygu llythrennedd, rhifedd a sgiliau mewn cymhwysedd digidol yn rhan o'r THS Uwch newydd, a'u hymgorffori drwy'r holl gymhwyster, heb fod gofyn eu hasesu'n ganlyniadau dysgu ffurfiol;
- Gallai asesu'r sgiliau ychwanegu at gymhlethdod y model asesu ac arwain at ailadrodd diangen;
- Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr eisoes yn cael eu hasesu'n ffurfiol drwy gymwysterau eraill;
- Gallai'r cynnig leihau straen ar ddysgwyr a chael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr;
- Mae'r trefniant presennol yn rhoi dysgwyr llai galluog o dan anfantais ac mae'r cynnig felly'n decach i bob dysgwr; a
- Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar faich gwaith ymarferwyr.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Os na fydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu hasesu, sut byddai athrawon yn gallu penderfynu a yw'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu; a
- Dylid ymgorffori rhyw fath o asesiad o'r sgiliau hyn yn y cymhwyster, megis asesu dysgwyr ar eu gwelliant mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Bod y sgiliau dan sylw yn sgiliau hanfodol y dylid eu hasesu fel y gellir mesur hyfedredd dysgwyr mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd a digidol;
- Os na chaiff y sgiliau hyn eu hasesu ni fyddant yn cael eu blaenoriaethu ac efallai na fyddant yn cael digon o sylw fel rhan o brosiectau a rhaglenni dysgu; a
- Byddai dysgwyr dan anfantais oherwydd y cynnig, gan fod ganddynt hawl i weld canlyniadau sy'n ymwneud â sgiliau y maent wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith.

Cynnig 8. Dylai pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu'r pedwar Sgil Cyfannol i gyd. Gallai pob sgil gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgil gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Bod rhai Sgiliau Cyfannol yn fwy perthnasol i rai prosiectau a'i bod yn synhwyrol cynllunio strwythur asesu sy'n adlewyrchu hyn, wedi'i bwysoli'n briodol ar gyfer pob prosiect cydrannol;
- Gallai'r pwysoliad gwahaniaethol hwnnw o sgiliau ar draws y prosiectau ddileu ailadrodd sgiliau sy'n digwydd yn y cymhwyster presennol;
- Byddai'r model arfaethedig yn caniatáu i ddysgwyr ailedrych ar y sgiliau a dangos eu gallu ynddynt i gyd mewn gwahanol gyd-destunau; a
- Bod pob un o'r Sgiliau Cyfannol yr un mor bwysig ac y dylai gyfrannu'r un peth at y radd gyffredinol.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Gallai neilltuo pwysoliad gwahanol i'r pedwar o sgiliau ym mhob un o'r cydrannau arwain at ddryswch; a
- Bod angen iddynt weld mwy o fanylion cyn gallu cynnig cefnogaeth lawn i'r cynnig, gan gynnwys sut y gellid defnyddio grid asesu yn ymarferol.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Efallai na fydd rhai o'r Sgiliau Cyfannol yn berthnasol ym mhob cydran ac y byddai asesu'r sgiliau ym mhob cydran yn creu beichiau asesu diangen;
- Ni ddylai fod rhaniad cyfartal rhwng y Sgiliau Cyfannol, gan nodi y dylai Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau fod â mwy o bwysoliad; a
- Dylai'r holl sgiliau gael eu pwysoli'n gyfartal ym mhob cydran, er eglurder ac er mwyn osgoi sefyllfa lle mae dysgwyr yn teimlo dan anfantais mewn unrhyw brosiect penodol sy'n cael ei bwysoli tuag at sgiliau mewn meysydd lle gallant fod yn llai hyderus.

Cynnig 9. Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd barhau i gael ei graddio A*-E.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Byddai'n sicrhau bod y THS Uwch yn cael ei graddio'n gyson â chymwysterau Lefel 3 eraill, gan sicrhau cydraddoldeb;
- Byddai graddio'r THS yn ôl A*-E yn gliriach ac yn haws ei ddeall i athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill;
- Byddai'n rhoi hygredded a dilysrwydd i'r THS Uwch, drwy ei gwneud yn glir i rhanddeiliaid ei bod yn werth cymaint â chymwysterau Lefel 3 eraill;
- Byddai'n hwyluso dilyniant dysgwyr i gyflogaeth ac addysg uwch;
- Roedd yn decach nag opsiynau graddio amgen eraill, gan fod system raddio A*-E yn adlewyrchu'n fwy uniongyrchol faint o waith y mae dysgwyr yn ei wneud yn y cymhwyster; a
- Byddai'n cynyddu ymgysylltiad dysgwyr â'r THS Uwch, gan y byddai cydberthynas uniongyrchol rhwng faint o waith a wnânt tuag at y cymhwyster a'u gradd derfynol.

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn gwneud hynny'n bennaf am eu bod yn teimlo y byddai system raddio amgen yn fwy priodol.

- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai model llwyddo/methu, neu fodel llwyddo/teilyngdod/rhagoriaeth yn fwy priodol gan nad ydynt yn ystyried bod y THS Uwch yr un math o gymhwyster â Safon Uwch 'draddodiadol'; a
- Pwysleisiodd eraill y byddai angen mwy o drylwyrdd yn y ffordd y mae'r cymhwyster yn cael ei gyflenwi a'i asesu cyn y byddai system raddio A*-E yn briodol.

Cynnig 10. Dylai dysgwyr allu cyflawni gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnir ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.



■ Cytuno'n gryf ■ Cytuno ■ Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol ■ Anghytuno ■ Anghytuno'n gryf ■ Ddim yn siŵr

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo:

- Byddai'n sicrhau cydraddoldeb rhwng y THS Uwch ddiwygiedig a chymwysterau Lefel 3 eraill;
- Mae'r cynnig yn deg, er enghraifft oherwydd byddai dysgwyr yn destun yr un system raddio ar draws gwahanol gymwysterau neu oherwydd y byddai caniatáu ailsefyll yn sicrhau bod dysgwyr yn cael ail gyfle i lwyddo;
- Byddai'n sicrhau bod unrhyw amgylchiadau personol neu esgusodol a allai effeithio'n negyddol ar berfformiad dysgwyr yn cael eu hystyried yn y system raddio;
- Mae'n cynnig cyfle i ddysgwyr ddangos a datblygu eu sgiliau mewn rhai cydrannau hyd yn oed os ydynt yn gweld cydrannau eraill yn fwy heriol;
- Byddai'n sicrhau bod gwelliant dysgwyr yn cael ei gydnabod a'i annog dros amser; a
- Byddai'n helpu dysgwyr i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl.

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, gan gynnwys:

- Sut y byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n ymarferol, yn enwedig ymarferoldeb trefnu ailsefyll; a
- Chytuno â'r cynnig i ganiatáu ailsefyll pob cydran unwaith (neu, ar adegau prin, ailsefyll unwaith ar draws y cymhwyster cyfan) ond anghytuno â'r cynnig na fyddai'n rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran i ennill gradd.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo:

- Y dylid disgwyl i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran er mwyn ennill gradd ar lefel cymhwyster; a
- Gellid ystyried bod caniatáu i ddysgwyr ennill gradd heb lwyddo ym mhob cydran yn lleihau trylwyredd a dilysrwydd y THS Uwch.

1. Cyflwyniad

Cyflwyno'r adroddiad hwn ddadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus Cymwysterau Cymru, 'Sgiliau'r Dyfodol', a gafwyd rhwng 21 Medi a 13 Tachwedd 2020.

1.1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd Cymwysterau Cymru am sylwadau ar newidiadau arfaethedig i gymhwyster y THS Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch. Yn benodol, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion i:

- Ddod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol; a
- Datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd.

Mae'r ddogfen ymgynghori lawn, 'Sgiliau'r Dyfodol', a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig [ar gael ar-lein ar wefan Cymwysterau Cymru](#).

Hyrwyddodd a dosbarthodd Cymwysterau Cymru yr ymgynghoriad drwy amrywiaeth o sianeli er mwyn hybu ymwybyddiaeth rhanddeiliaid ac annog ymatebion. Roedd y sianeli hyn yn cynnwys gwefan Cymwysterau Cymru, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol. Manteisiodd Cymwysterau Cymru hefyd ar sianeli rhanddeiliaid a gweithiodd gyda rhwydweithiau partner fel y consortia addysg rhanbarthol i gyrraedd mwy o gynulleidfa.

Darparwyd yr ymgynghoriad mewn dau fformat: prif ddogfen ymgynghori a fersiwn gryno ar gyfer dysgwyr, eu teuluoedd ac eraill a oedd yn ffafrio fersiwn gryno. Roedd y ddwy fersiwn yn cynnwys yr un cwestiynau ymgynghori, wedi'u geirio yn y ffordd fwyaf priodol i'r gynulleidfa dan sylw. Gallai ymatebwyr gyrchu'r ddwy fersiwn o'r ymgynghoriad ac ymateb iddynt ar-lein neu'n electronig (PDF neu Word) drwy wefan Cymwysterau Cymru, neu ar bapur, print bras a braille ar gais.

Cafodd Cymwysterau Cymru **428 o ymatebion** i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- 209 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad; a
- 219 o ymatebion i fersiwn gryno.

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Felly, mae'r 428 o ymatebion yn cynnwys y rhai a atebodd nifer fach o gwestiynau yn unig, yn ogystal â'r rhai a atebodd y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r cwestiynau.

Yn y tabl isod ceir trosolwg bras o'r gwahanol fathau o ymatebwyr.

Categori bras o ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr
Dysgwyr	223
Darparwyr a gweithwyr proffesiynol addysg	158
Sefydliadau rhanddeiliaid addysg ¹	17
Ymatebwyr unigol	30
Cyfanswm	428

¹ Yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, undebau athrawon, cyrff rheoleiddio neu ddyfarnu, sefydliadau cynrychioliadol a thrydydd sector a chyrrff cyhoeddus eraill.

1.2 Dull dadansoddi

Arad a ddadansoddodd y 428 o ymatebion i gyd ar ran Cymwysterau Cymru. Cyflwynwyd pump o'r ymatebion hyn drwy e-bost yn hytrach nag ar-lein a dadansoddwyd y rhain yn yr un modd â'r ymatebion ar-lein.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 10 'cwestiwn caeedig', yn gofyn i ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob cynnig. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi'u meintioli a chyflwynir dadansoddiad o'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn.

Yna, gwnaeth Arad ddadansoddiad thematig o'r **sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan ymatebwyr** i esbonio eu hatebion i bob un o'r 10 cwestiwn caeedig. Hefyd, gwnaeth Arad ddadansoddiad thematig o'r ymatebion i'r tri chwestiwn penagored ar yr Asesiad Effaith Integredig. Roedd y dadansoddiad thematig yn categoreiddio'r wybodaeth a roddwyd gan ymatebwyr i themâu cyffredinol.

- I ddechrau, adolygwyd **sampl o ymatebion** i bob cwestiwn a chydweithiodd y tîm ymchwil i ddatblygu fframwaith cyffredinol ar gyfer dadansoddi thematig. Nododd y fframwaith hwn y themâu allweddol sy'n debygol o gael eu dyrannu o fewn cwestiynau unigol, yn ogystal â sicrhau cysondeb o ran sut y cofnodwyd themâu tebyg ar draws gwahanol gwestiynau. Nid oedd y fframwaith hwn yn sefydlog; roedd yn ddigon hyblyg i gael ei addasu a'i ddatblygu ymhellach wrth i'r tîm gynnal dadansoddiad llawn o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Er mwyn sicrhau cysondeb yn y dadansoddiad, adolygwyd y sampl cychwynnol o ymatebion yn annibynnol gan ddau ymchwilydd. Yna daeth yr ymchwilyddwr at ei gilydd i drafod eu canfyddiadau a chytuno ar y themâu i'w cynnwys yn y fframwaith dadansoddi a sut y dylid dehongli'r rhain. Roedd hyn yn sicrhau bod pob ymchwilydd wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o sut i ddehongli ymatebion a dull cyson o godio.
- Dadansoddwyd **gweddill yr ymatebion i gwestiynau penagored** gan ddefnyddio'r fframwaith codio a ddatblygwyd yn ystod y cam adolygu cychwynnol. Defnyddiwyd cofnod tystiolaeth (ar ffurf taenlen) i atodi themâu allweddol i bob ymateb unigol. Roedd y cofnod tystiolaeth hwn yn sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn dadansoddi ac yn nodi themâu'n gyson ac yn fodd i'r tîm nodi pa mor gyffredin yw pob thema ac amrywiad ym marn gwahanol gategorïau o ymatebwyr. Nodwyd nifer fach o themâu allweddol ychwanegol (nas nodwyd gan y fframwaith codio cychwynnol) ar gyfer pob cwestiwn yn ystod y cam hwn, ond codwyd y themâu hyn fel arfer gan nifer fach o ymatebwyr.

1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae Adran 2 o'r adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg o themâu allweddol a gododd yn rheolaidd drwy gydol yr ymatebion i wahanol gwestiynau ymgynghori. Mae'r rhain yn themâu lefel uchel sy'n adlewyrchu materion cyffredinol a godwyd gan ymatebwyr. Mae Adrannau 3 a 4 yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad yn crynhoi ymatebion i bob cwestiwn yn ei dro ac, fel y cyfryw, gellir ailadrodd rhai themâu mewn ymatebion i wahanol gwestiynau. Mae cyfanswm nifer yr ymatebion i bob cwestiwn caeedig

a phob cwestiwn penagored yn amrywio ac fe'i nodir ar ddechrau pob cwestiwn. Lle bo'n briodol, rhennir y themâu a nodwyd yn:

- Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig;
- Materion i'w hystyried ymhellach;² a
- Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno themâu allweddol sy'n codi amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn nhrefn eu cyffredinrwydd. Roedd y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr fel arfer yn eang iawn, a chodwyd pob thema yn gyffredinol gan leiafrif o ymatebwyr.

Darparwyd cyfoeth o dystiolaeth bellach drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n cefnogi'r themâu hyn ac sy'n rhoi manylion ychwanegol sylweddol. Mae'r holl ymatebion unigol wedi'u rhannu â Cymwysterau Cymru fel y gellir eu hystyried ymhellach.

Drwy'r holl adroddiad, daw'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynwyd o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ac nid ydynt yn cynrychioli barn Cymwysterau Cymru nac awduron yr adroddiad. Felly, mae'r adroddiad:

- Yn rhoi crynodeb o safbwyntiau yn hytrach na dod i gasgliadau; ac
- Yn cynrychioli barn ymatebwyr ni waeth pa mor gywir y mae ymatebwyr wedi dehongli cynigion Cymwysterau Cymru neu a yw eu barn yn adlewyrchu'n gywir y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch bresennol a fframwaith Bagloriaeth Cymru.

Bwriad yr adroddiad hwn yw cydgrynhoi'r ystod eang o themâu a nodwyd gan ymatebwyr, a gyflwynir fel negeseuon allweddol at ystyriaeth Cymwysterau Cymru. Fel y cyfryw, nid yw'r adroddiad yn cyflwyno niferoedd na chyfrannau'r ymatebwyr a gododd bob thema.

² Roedd y rhain yn faterion penodol yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylai Cymwysterau Cymru eu hystyried wrth ddatblygu neu weithredu pob cynnig ymhellach. Fe'u codwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnigion, yn ogystal â'r rhai a oedd yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol, a'r rhai nad oeddent yn siŵr neu na roddodd ymateb i'r cwestiwn caeedig.

2. Themâu cyffredinol

Nododd y dadansoddiad themâu cyffredinol a rheolaidd a godwyd gan yr ymatebwyr ar draws nifer o gwestiynau. Mae'r adran gychwynnol hon o'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg o'r themâu hyn.

Dywedodd ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i sefydlu cymhwyster sy'n gliriach i ddysgwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid. Roeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn symleiddio strwythur cyflenwi'r cymhwyster.

- Teimlai'r ymatebwyr y byddai cymhwyster THS Uwch annibynnol yn cael ei ddeall yn gliriach na threfniant presennol cymhwyster y THS Uwch a fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch.
- Drwy seilio'r THS Uwch ar lai o gydrannau a thrwy ganolbwyntio ar asesu pedwar o Sgiliau Cyfannol, nododd ymatebwyr y byddai'r cymhwyster yn llai beichus, ac yn symlach i ddysgwyr ei ddeall.
- Drwy ailwampio'r cymhwyster a chanolbwyntio ar asesu llai o sgiliau, gellid lleihau'r ailadrodd dysgu ac asesu yr oedd rhai yn ei ystyried yn wendid yn y cymhwyster presennol.

Mae gan y cynigion y potensial i fod o fudd i ddysgwyr drwy wneud y cymhwyster yn fwy hydrin a diddorol.

- Roedd ymatebwyr yn casglu o'r cynigion y byddai lleihau nifer yr elfennau i dair yn galluogi neilltuo mwy o amser i bob un. Credai ymatebwyr y byddai hyn yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gyfoethocach o'r pynciau sy'n cael eu harchwilio, wrth ddatblygu'r Sgiliau Cyfannol yn llawnach.
- Gallai'r ffocws ar lai o gydrannau a lleihau nifer y sgiliau sy'n cael eu hasesu leddfu'r straen ar ddysgwyr a hyrwyddo lles dysgwyr.

Awgrymodd ymatebwyr y gallai'r cynigion leihau'r baich gwaith sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster o safbwynt ymarferwyr.

- Gallai symleiddio strwythur y cymhwyster arwain at ddull mwy penodol o addysgu ac asesu.
- Awgrymwyd y byddai mynd i'r afael â'r canfyddiad am ddyblygu gweithgarwch ar draws cydrannau yn gwneud y cymhwyster yn haws i'w reoli a'i weinyddu, ac yn sicrhau bod diddordeb ymarferwyr yn y cymhwyster yn parhau.

Nododd ymatebwyr fod y trefniadau presennol yn rhoi rhai dysgwyr o dan anfantais a theimlent y gallai'r cynigion ar gyfer y THS Uwch newydd fod yn decach i bob dysgwr o bob lefel gallu ddatblygu a dangos ei sgiliau.

- Teimlai ymatebwyr fod rhai dysgwyr o dan anfantais o dan y trefniadau presennol, yn enwedig os nad oeddent yn pasio fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch oherwydd eu canlyniadau mewn cymwysterau TGAU a Safon Uwch eraill. Roedd ymatebwyr o'r farn bod hyn yn effeithio'n arbennig ar ddysgwyr a oedd yn cael trafferth gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.

- Awgrymwyd bod y trefniadau presennol, lle caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu'n ganlyniadau dysgu o fewn y THS Uwch, yn rhoi disgyblion llai galluog o dan anfantais ac yn gallu eu hatal rhag cyflawni graddau da ac yn effeithio ar lwybrau dysgu yn y dyfodol.

Byddai'r cynigion yn helpu dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso sgiliau sy'n werthfawr ac yn berthnasol i ddysgu parhaus a chyflogaeth yn y dyfodol.

- Bydd y Sgiliau Cyfannol, a fydd yn ganolbwynt i'r cymhwyster, yn cefnogi dysgwyr i ddilyn ystod o lwybrau yn y dyfodol, gan gynnwys symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.
- Mae'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r pwyslais ar roi'r sgiliau ar waith mewn gwahanol gyd-destunau drwy'r gwahanol gydrannau.

Mae'r cynigion – gan gynnwys y ffocws ar y pedwar o Sgiliau Cyfannol – yn cydreddeg â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi parhad i ddysgwyr.

- Byddai'r cynigion yn caniatáu i'r cymhwyster adeiladu ar y sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm, gan ddarparu dilyniant a pharhad o gyfnodau addysgol cynharach.

Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad nifer o faterion mynych y mae angen eu hystyried ymhellach.

- Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai angen canllawiau a manylion pellach i gefnogi gweithredu'r THS Uwch. Mewn rhai achosion, awgrymodd ymatebwyr y byddai angen hyfforddiant i ymarferwyr gefnogi'r ddarpariaeth.
- Nododd ymatebwyr fod angen rhagor o wybodaeth am y dull asesu arfaethedig er mwyn pennu'r meini prawf i'w defnyddio i asesu canlyniadau. Yn benodol, teimlai ymatebwyr y byddai canllawiau ar bwysoli'r sgiliau ym mhob cydran yn fuddiol.
- Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu cefnogi drwy'r THS Uwch, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu hasesu fel canlyniadau dysgu.
- Amlygodd ymatebwyr hefyd fod angen sicrhau cydraddoldeb â chymwysterau Lefel 3 eraill, gan sicrhau bod enw da a hygredd y cymhwyster yn cael eu cynnal.

Mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryderon y gallai'r cynigion ostwng gwerth y cymhwyster.

- Teimlai ymatebwyr ei bod yn bwysig cadw brand Bagloriaeth Cymru, a hwythau o'r farn ei fod wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei gydnabod gan randdeiliaid.
- Mynegodd ymatebwyr bryderon y gellid gostwng gwerth y cymhwyster newydd gan ei feirniadu am ddiffyg trylwyredd, drwy beidio ag asesu llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn benodol rhagor.
- Nododd yr ymatebwyr hyn y gallai ffocws llai'r cymhwyster arwain at ddiffyg cydraddoldeb â Safon Uwch, gan effeithio'n negyddol ar farn cyflogwyr a phartneriaid mewn AB ac AU am y THS Uwch.

3. Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch


Cyflwynodd adran gyntaf yr ymgynghoriad gynneg Cymwysterau Cymru i ddod â fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch i ben er mwyn canolbwyntio ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn gymhwyster annibynnol. Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno â'r cynneg.

3.1 Cynnig 1

Dylid dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynneg hwn?

Ffigur 1: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 1



N = 424

Dyweddodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (32%) neu'n cytuno (32%) â'r cynneg. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynneg (16%) neu'n ansicr (13%). Dim ond 7% oedd yn anghytuno â'r cynneg i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 233 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

3.1.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynneg

Dyweddodd ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r cynneg oherwydd y byddai'n gwneud y cymhwyster yn **gliriach** i ddysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid eu deall. Nododd ymatebwyr nad yw'r gwahaniaeth rhwng fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch a'r THS Uwch yn cael ei ddeall yn dda, a gall achosi dryswch i rai dysgwyr. Crybwyllodd ymatebwyr fod

hyn yn peri pryder arbennig i ddysgwyr a oedd yn pasio'r THS Uwch ond nid fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch.

'Rwy'n credu bod mwy o ffocws ar wneud y THS yn gymhwyster cwbl annibynnol yn ei gwneud yn llawer cliriach i bawb dan sylw, gan gynnwys prifysgolion.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Mae'n drysu disgyblion ac nid yw'n gwneud synnwyr bod dau gymhwyster ar wahân. Mae'r THS yn unig yn gadarn ac yn gweddu i anghenion disgyblion o ran trylwyredd academiaidd a chais UCAS.'
[Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig gan eu bod yn teimlo **bod y system bresennol yn rhoi rhai dysgwyr dan anfantais** os nad oeddent wedi pasio fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch oherwydd canlyniadau eu harholiadau eraill.³ Roedd ymatebwyr o'r farn bod hyn yn effeithio'n arbennig ar ddysgwyr a oedd yn cael trafferth gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.

'Mae dysgwyr gradd D ffiniol yn aml yn rhagori yn y THS ond mae'r graddau LI/M [llwyddo/methu] sy'n gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru gyffredinol yn aml yn achosi dryswch i'r rhai nad ydynt yn cyflawni'r graddau C ac uwch cymwys mewn TGAU Mathemateg/Saesneg.'
[Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn credu y byddai'r THS Uwch yn **cael ei gwerthfawrogi a'i chydabod yn fwy** fel cymhwyster annibynnol. Teimlai ymatebwyr fod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r THS Uwch yn fwy na fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch, ac roeddent o'r farn mai'r ffocws ar sgiliau oedd yr agwedd bwysicaf ar y cymhwyster.

'Yn gyffredinol, mae gan fyfyrwyr ddiddordeb yng ngwerth y THS ac nid yr hyn y mae fframwaith CBC [Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch] yn ei ychwanegu. Mae myfyrwyr nad ydynt yn cyflawni dwy Safon Uwch arall yn cael eu siomi o weld F [methu] ar eu canlyniadau terfynol ac roedd hyn eto'n creu dryswch. O safbwynt addysgwyr nid oes gwerth i CBC mwyach.'
[Gweithiwr addysg proffesiynol]

Teimlai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn lleihau'r baich gwaith sy'n gysylltiedig â chymhwyster, gan ei wneud yn fwy hydrin i ddysgwyr ac athrawon. Dywedodd ymatebwyr

³ Er mwyn pasio Bagloriaeth Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r THS Uwch, ynghyd â dwy Safon Uwch arall neu gymwysterau cyfatebol eraill, yn ogystal â chyrraedd gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg Rhifedd ac mewn TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith.

eu bod yn credu bod gwaith sylweddol yn gysylltiedig â Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch a'r THS Uwch, yn enwedig wrth ymgymryd â hwy ochr yn ochr â chyrsgiau eraill. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai'r newidiadau arfaethedig wneud y cymhwyster yn fwy deniadol a diddorol i ddysgwyr.

3.1.2 Materion i'w hystyried

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ond yn codi ychydig o faterion yn ymwneud â **gweithredu'r** THS Uwch. Roedd y rhain yn cynnwys nodi'r angen am hyfforddiant i staff o ran cyflenwi'r cymhwyster a'r canllawiau sy'n ymwneud â chyflenwi.

'Un mater allweddol fydd yr hyfforddiant a ddarperir i athrawon a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd angen rhoi digon o amser arweiniol i'r rhain i alluogi staff i'w hystyried a'u gweithredu'n briodol. Bydd angen iddynt fod o'r ansawdd uchaf y gellir ei ddarparu. Wrth gwrs, bydd angen iddynt fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Mae angen ymdrech ar y cyd rhwng QW [Cymwysterau Cymru] a CBAC i fynd i'r afael â'r materion hyn.' [Undeb Athrawon]

3.1.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig oherwydd eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig **cadw brand Bagloriaeth Cymru**, a hwythau o'r farn ei fod wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei gydnabod gan randdeiliaid, gan gynnwys Prifysgolion.

'Mae Bagloriaeth Cymru wrth wraidd polisi addysg Cymru ers ugain mlynedd ac mae'n frand cydnabyddedig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Diwygiwyd teitl achrededig y Dystysgrif Her Sgiliau ar gais SAU ledled y DU i gynnwys 'Bagloriaeth Cymru Uwch' gan atgyfnerthu pwysigrwydd y brand i'r sector hwn.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Dywedodd ymatebwyr hefyd eu bod yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo bod y Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch o **fudd penodol i rai dysgwyr**, yn enwedig y rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol. Mynegodd ymatebwyr ryw faint o bryder y gallai dod â Bagloriaeth Uwch Cymru i ben arwain at ddiffyg cydraddoldeb i ddysgwyr ar gyrsgiau galwedigaethol.

'Dylid cadw'r Fframwaith. Mae gan Bagloriaeth Cymru ddwy rôl bwysig mewn addysg ôl-16. Mae'n rhoi darlun cyffredinol i gyflogwyr ac AU o gyflawniadau myfyrwyr gan fod pob un yn gofyn am y TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu uwch. Rwy'n teimlo mai'r rôl bwysicaf yw'r hyn y mae wedi'i wneud i fyfyrwyr galwedigaethol yng Nghymru. Roeddent bob amser yn cael eu hystyried yn ddinasyddion eilradd gan fyfyrwyr Safon Uwch a chan staff academiaidd. Gan fod Bagloriaeth Cymru yn mynnu

dau gymhwyster Safon Uwch neu alwedigaethol gyfatebol, mae'n rhoi chwarae teg i bob myfyriwr. [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Mae'r cymhwyster Cymreig blaenllaw hwn yn rhoi'r un parch i ddysgu academaidd a galwedigaethol ar lefel Uwch gyda'r un statws i bob cymhwyster o fewn y fframwaith. [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Roedd ambell ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig am ei fod yn teimlo bod **Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch yn ategu'r THS Uwch** ac felly y dylid cadw'r ddau. Mynegodd nifer fach o ymatebwyr y farn y dylai Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch **a'r THS Uwch fod yn ddewisol**, a theimlent nad oedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r naill gymhwyster na'r llall.⁴ Ailadroddwyd y farn hon gan nifer fach o ymatebwyr yn eu hymatebion i gwestiynau ymgynghori dilynol, ac felly nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn yr adrannau sy'n dilyn.

⁴ Mae penderfynu a ddylai'r THS Uwch fod yn orfodol neu'n ddewisol y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ac nid yw'n perthyn i gylch gwaith Cymwysterau Cymru.

4. Y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Newydd

Amlinellodd ail adran yr ymgynghoriad brif gynigion Cymwysterau Cymru ar gyfer cymhwyster THS Uwch newydd. Mae'r cynigion yn ymwneud â'r agweddau canlynol ar gymhwyster y THS Uwch:

- Diben
- Cyd-destunau dysgu
- Strwythur
- Strwythur asesu
- System raddio


Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno â'r cynigion.

4.1 Cynnig 2 – Diben

Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 2



N = 393

Dywedodd bron yr holl ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (50%) neu'n cytuno (39%) â'r cynnig, a chyfran fechan (8%) yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol. Roedd cyfanswm o 2% yn ansicr a dim ond 1% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 197 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.1.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn am eu bod o'r farn ei bod yn bwysig i'r THS Uwch **barhau i fod yn gymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau**. Nodwyd bod y cymhwyster yn cefnogi datblygiad sgiliau sy'n bwysig i ddysgwyr sy'n dilyn amrywiaeth o wahanol lwybrau. Dywedodd ymatebwyr nad yw'r sgiliau a ddatblygir drwy'r THS Uwch yn ffocws penodol mewn pynciau eraill, ond eu bod yn bwysig ar gyfer dyfodol dysgwyr.

'Mae'r rhain yn alluoedd hanfodol a fydd, yn fy marn i, yn helpu llawer o ddysgwyr yn y dyfodol i baratoi eu hunain at y gweithle a meddu ar yr wybodaeth i ffynnu yn eu hamgylchedd.' [Dysgwr]

'Mae'r sgiliau a gyflenwir ac a ddatblygir yn hanfodol i bontio'r bwloch rhwng yr ysgol ac astudio / gyrfa yn y dyfodol. Nid oes amser i gwmpasu'r elfennau hyn yn rhan o'r cwricwlwm traddodiadol oherwydd pwysau ar ysgolion i gyflenwi cynnwys arholiadau mewn meysydd pwnc eraill. Mae sgiliau ymchwil myfyrwyr, er enghraifft, wedi'u tандdatblygu'n druenus.'
[Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn croesawu ffocws ar gyd-destunau sy'n **berthnasol i ddysgwyr**. Roedd ymatebwyr yn tueddu i fynegi eu cefnogaeth i gynnwys cyd-destunau 'bywyd go iawn', 'ymarferol' neu 'cysylltiedig â gwaith' a nododd y byddai'r rhain yn fwy tebygol o wneud y cymhwyster yn ddeniadol i ddysgwyr.

'Gan fod y THS yn gymhwyster sgiliau, mae'n ddoeth canolbwyntio ar y sgiliau pwysicaf sydd angen eu datblygu... mae datblygu a rhoi sgiliau ar waith mewn cyd-destunau perthnasol yn caniatáu i'r dysgwr ddeall nod y cymhwyster yn well. Mae rhoi'r sgiliau hynny ar waith mewn cyd-destunau bywyd go iawn yn galluogi dysgwyr i wella eu sgiliau'n fwy gan eu bod yn gallu gweld y perthnasedd i'w dyfodol.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n **helpu i gefnogi dilyniant dysgwyr** i addysg uwch, cyflogaeth a dinasyddiaeth. Dywedodd ymatebwyr fod y sgiliau a ddatblygir drwy'r THS Uwch yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion. Disgrifiodd ymatebwyr hefyd ffyrdd yr oeddent yn teimlo y byddai'r ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar, a sgiliau cysylltiedig a ddatblygir drwy'r cymhwyster, yn cynnig manteision ehangach i gymdeithas.

'Mae'n bwysig bod yn barod ar gyfer cyflogaeth oherwydd dyna a fydd yn llenwi'r rhan fwyaf o'n bywydau ar ôl addysg. Mae hefyd yn dda dysgu sut

i fod yn ddinesydd da gan y byddai hynny'n eich helpu ym mhob agwedd ar fywyd.' [Dysgwr]

'Ie, dylai'r cymhwyster agor drysau i AU ond hefyd cynnig budd ychwanegol ehangach i roi'r sgiliau i fyfyrwyr ddod i mewn i'r byd ehangach, o safbwynt cyflogaeth a chymdeithasol.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Teimlai ymatebwyr ei bod yn fuddiol i ddiben y THS Uwch **gydredeg â'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cwricwlwm newydd i Gymru**. Roedd ymatebwyr o'r farn bod cynnwys y THS Uwch fel cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau eisoes yn cydredeg yn dda â'r cwricwlwm newydd.

'Mae'n bwysig defnyddio iaith a therminoleg gyson yn unol â'r cwricwlwm newydd er mwyn diogelu'r cymhwyster yn y dyfodol.' [Corff llywodraeth anadrannol]

'Bydd y THS Uwch newydd yn cydredeg yn dda â phedwar diben y cwricwlwm newydd a'r Genhadaeth Genedlaethol.' [Consortiwm addysg rhanbarthol]

Ar adegau, dywedodd ymatebwyr fod diben arfaethedig y THS Uwch newydd yn adlewyrchu'r ffordd yr oedd y cymhwyster presennol **eisoes yn cael ei gyflenwi**. Ar adegau, pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn ei bod yn bwysig bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cynnal cryfderau'r cymhwyster presennol.

'Dyma gryfderau Bagloriaeth Cymru ar hyn o bryd ac mae angen eu meithrin ymhellach yn y cymhwyster newydd hwn.' [Consortiwm addysg rhanbarthol]

Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig gan eu bod yn teimlo y byddai'r newidiadau'n gwneud y THS Uwch **yn symlach**, gan atgyfnerthu rhai o'r ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

4.1.2 Materion i'w hystyried

Cododd ymatebwyr rai materion i'w hystyried, yn enwedig yn ymwneud â **gweithredu'r** cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys awydd am fwy o arweiniad ynghylch y cyd-destunau perthnasol, gweithgareddau cynllunio ac asesu.

'Yn rhan o'r broses ddylunio, bydd angen digon o arweiniad i athrawon gynllunio gweithgareddau. Mae angen i fecanweithiau ar gyfer 'cymeradwyo' gweithgareddau fod yn effeithlon ac osgoi rhoi baich

diangen ar athrawon a chanolfannau. Lle bo'n bosibl, dylai'r cymhwyster newydd adeiladu ar waith y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig datblygu'r pedwar diben. [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Teimlai ychydig o randdeiliaid y dylid ystyried sicrhau **rôl amlwg i ddysgwyr** wrth lunio eu cyfranogiad yn y cymhwyster. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o ddewis y gweithgareddau a'r cyd-destunau perthnasol drostynt eu hunain.

'Awn ymhellach a dweud y dylai cyd-destunau a dibenion fod yn ddilys ac yn rhai bywyd go iawn, ac y dylent gael eu dewis yn ddefnyddiol gan y dysgwyr eu hunain.' [Rhiant/gofalwr]

4.1.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig


Ychydig o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am **nad oeddent yn gwerthfawrogi'r THS Uwch** ac am eu bod yn teimlo y dylai'r sgiliau gael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm yn hytrach na chael eu haddysgu mewn cymhwyster annibynnol. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo y dylai'r cymhwyster fod yn ddewisol.

4.2 Cynnig 3 – Cyd-destunau Dysgu

Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 3: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 3



N = 374

Dyweddodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (22%) neu'n cytuno (42%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (16%) neu'n ansicr (11%). Dim ond 9% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 157 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.2.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am eu bod o'r farn bod y NDC a nodau llesiant Cymru yn **bwysig a pherthnasol i fywydau dysgwyr**. Teimlai ymatebwyr fod y nodau'n berthnasol gan eu bod yn adlewyrchu rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu dysgwyr a chymdeithas. Teimlai ymatebwyr hefyd y byddai cynnwys cyfeiriad at fframwaith lleol a byd-eang yn gwneud y cynigion yn fwy perthnasol i ddysgwyr.

'Mae pobl ifanc yn fwy ymwybodol o faterion cynaliadwy yn ein byd nag erioed o'r blaen ond efallai nad ydynt yn ymwybodol o nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Bydd hyn yn holl bwysig ar gyfer iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol ac felly

rwy'n cytuno y dylai chwarae rhan fawr yn y Dystysgrif Her Sgiliau. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn deall pwysigrwydd hyn ac y byddent yn agored i ddatblygu'r mathau hyn o sgiliau. [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Mae'n swnio fel peth da iawn i'w wneud oherwydd rwy'n teimlo y gallai agor llygaid pobl i'r sefyllfaoedd hyn fel newid yn yr hinsawdd hyd yn oed yn fwy. Bydd hefyd yn paratoi pobl at eu dyfodol drwy wneud heriau byd-eang/prosiectau unigol. Yr wyf eisoes yn gwybod beth fydd testun fy un i.
[Dysgwyr]

Roedd ymatebwyr yn croesawu cynnwys y nodau fel cyd-destunau dysgu, gan ddweud y byddai'r pwyslais ar y nodau yn helpu i gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithgar, gan sicrhau bod y THS Uwch yn cydreddeg â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai cynnwys y NDC a nodau llesiant Cymru gyfrannu at hybu ymwybyddiaeth am rai o'r nodau yn y dyfodol, a'u cyflawni o bosibl.

'Er mwyn cyflawni a chyflenwi'r nodau a'r nodau llesiant i Gymru, credaf fod angen i ddinasyddion ddeall a chefnogi'r agenda. Bydd ymgorffori hyn yn glir mewn cymwysterau yn cefnogi'r daith hon.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Ar adegau, dywedodd ymatebwyr y byddai cynnwys y nodau yn helpu i wahaniaethu rhwng y THS Uwch a'r THS Genedlaethol/Sylfaen ac yn rhoi mwy o ymdeimlad o ddilyniant i ddysgwyr rhwng Cyfnod Allweddol 4 ac addysg ôl-16.

'Bydd dilyniant clir o'r dystysgrif Genedlaethol/Sylfaen hefyd yn well, gan fod pryder fod myfyrwyr ar lefel Uwch, o dan y THS bresennol, yn ailadrodd ac yn dibynnu ar wybodaeth sydd eisoes wedi'i chwblhau ar y lefelau is. Bydd hyn yn rhoi llwybr dilyniant llawer cliriach i fyfyrwyr a ffocws clir ar gyfer eu hastudiaethau.' [Darparwr AB]

4.2.2 Materion i'w hystyried

Cododd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig rai materion i'w hystyried gan gynnwys yr angen i gadw digon o **hyblygrwydd i ddysgwyr** ddewis eu pynciau eu hunain. Cododd rhai bryderon am ddysgwyr yn cael eu cyfyngu rhag dewis pynciau a oedd y tu hwnt i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a nodau llesiant Cymru.

'Er gwaethaf y nodau sy'n cwmpasu amrywiaeth o seiliau a phynciau, nid wyf yn credu y dylid gosod terfynau ar bobl ifanc sy'n ymgymryd â'r dystysgrif, gan y byddent efallai'n hoffi ysgrifennu am bynciau ychwanegol sydd heb eu cwmpasu gan y nodau. Credaf ei bod yn bwysig bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r pynciau hyn ac y dylid ei gynnwys yn yr

her ond dylent allu dewis pynciau ar gyfer y dasg wahanol yn seiliedig ar y nodau hyn a/neu bynciau eraill sy'n addas iddynt. [Dysgwyr 17-19]

Mynegodd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig awydd am **ganllawiau pellach** a manylion i gefnogi gweithredu'r THS Uwch. Roedd y rhain yn cynnwys awydd am ganllaw i'r ffordd y mae'r cyd-destunau dysgu yn ymwneud â phob cydran, adnoddau a phrosesau asesu. Roedd ymatebwyr hefyd yn rhoi barn benodol ar weithredu megis awgrymu'r mathau o sgiliau ymarferol y dylid canolbwyntio arnynt.

'Byddai'r cyd-destunau sylfaenol hyn yn darparu lefel o gymhlethdod y byddai ei hangen ar gyfer Lefel Uwch, ond byddai'n ddefnyddiol i ganolfannau gael eu cefnogi ag adnoddau. Cyrhaeddodd BC [Bagloriaeth Cymru] ddiwygiedig 2015 yn sydyn mewn canolfannau a heblaw rhai llyfrynnau datblygu sgiliau, nid oedd gan ganolfannau'r adnoddau i addysgu'r cymhwyster ar raddfa mor fawr. Mae'n hanfodol bod adnoddau'n cael eu cynllunio, a'u bod yn briodol i'r lefel ac yn cael eu rhoi i ganolfannau mewn amserlen briodol. [Darparwr addysg]

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ond yn teimlo y byddai **cyfeirio at nodau a fframweithiau strategol eraill** o fewn y THS Uwch yn gwella'r cynigion. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys nod *Cymraeg 2050* o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, Datganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ymgorffori'r NDC a'r nodau llesiant yn y cymhwyster, ond yn nodi y **gellid gwneud hyn heb ailwampio'r cymhwyster**. Nododd yr ymatebwyr hyn fod y nodau hyn eisoes yn ffocws allweddol i'r THS Uwch, neu eu bod eisoes yn cyflenwi'r cymhwyster mewn ffordd a oedd yn cydreddeg â'r nodau hyn, er enghraifft drwy eu cynnwys yn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang gyfredol.

'Hoffem nodi hefyd y gellid ymgorffori NDC y Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru yn hawdd yn yr Heriau Byd-eang a Chymunedol cyfredol heb orfod ailstrwythuro ac ailddatblygu'r Cydrannau hyn yn sylweddol.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

'Mae gan y cymhwyster presennol gymaint o ffocws, a gellid cynnwys nodau llesiant Cymru a NDC y Cenhedloedd Unedig yn benodol yn hawdd yn y drefn bresennol heb orfod ad-drefnu ac ail-ysgrifennu cymhwyster newydd yn llwyr.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

4.2.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn teimlo **na fyddai cynnwys y NDC a'r nodau llesiant yn gwella'r THS Uwch**. Rhoddwyd amrywiaeth o resymau dros y farn hon gan ymatebwyr gan gynnwys:

- mae'r ddwy set o nodau yn rhy eang;
- ni fyddai dysgwyr yn deall pam y cafodd y ddwy set o nodau eu cynnwys;
- dylai ffocws y THS Uwch fod ar sgiliau yn hytrach na chynnwys.

Teimlai nifer fechan o ymatebwyr y gallai canolbwyntio ar NDC y Cenhedloedd Unedig yn y THS Uwch beri rhywfaint o ddryswch ymhlith dysgwyr drwy eu harwain at gredu bod y THS Uwch yn gymhwyster dinasyddiaeth. Roedd rhywfaint o bryder ymhlith y sylwadau hyn y gallai hyn effeithio ar werth canfyddedig y THS Uwch oherwydd, yn eu barn hwy, nid oedd y cymwysterau dinasyddiaeth presennol yn cael eu cydnabod yn eang gan Brifysgolion.

'Mae perygl hefyd y bydd y dull hwn yn rhoi'r argraff fod y THS ar ei newydd wedd yn gymhwyster 'Dinasyddiaeth' ac rydym yn ymwybodol nad yw'r TAG mewn Dinasyddiaeth yn cael ei derbyn yn eang gan sefydliadau addysg uwch ond, oherwydd y gwaith a wnaed gan Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC, mae'r THS yn cael ei derbyn yn eang gan addysg uwch ochr yn ochr â gradd TAG Safon Uwch neu yn lle gradd Safon Uwch mewn llawer o gynigion prifysgol.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Roedd ymatebwyr hefyd yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn pryderu bod cynnwys y THS Uwch yn dod yn rhy ragnodol. Amlygodd rhai ymatebwyr risg canfyddedig o gynnwys gormod o ffocws ar gynnwys yn hytrach na sgiliau, tra bod nifer fechan yn teimlo bod y nodau'n rhy gymhleth i ddysgwyr eu deall. Weithiau, credai ymatebwyr nad oedd cynnwys y NDC a'r nodau llesiant yn caniatáu digon o ddewis i ddysgwyr.

'Er ein bod yn cytuno y dylai NDC y Cenhedloedd Unedig fod yn sail i'r gydran Dinasyddiaeth Fyd-eang ddiwygiedig, gallai mynnu bod pob agwedd ar y THS ddiwygiedig yn cael ei chwblhau yng nghyd-destun y NDC gyfyngu'n sylweddol ar ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r Prosiect Annibynnol lle caiff dysgwyr eu hannog i ganolbwyntio eu Prosiect ar faes diddordeb sy'n gysylltiedig â'u cyrchfannau yn y dyfodol.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

'Dydw i ddim yn teimlo y dylai hyn fod yn gyfyngedig i NDC y Cenhedloedd Unedig, bydd mwy o gyfyngiadau'n cyfyngu ar ehangder dysgu / datblygu sgiliau - mae unrhyw elfennau gwybodaeth gorfodol yn nodwedd negyddol i lawer o fyfyrwyr o'r oedran hwn sy'n hoffi dewis / arddel y meysydd pwnc sy'n fwyaf perthnasol i'w hamgylchiadau.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Gadewch i ddisgyblion benderfynu drostynt eu hunain ar beth yr hoffent ei wneud ac a ddylent ei wneud ai peidio.' [Dysgwr 17-19]


4.3 Cynnig 4 - Strwythur

Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair. Y tair cydran i'w cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod:

- Cydran 1 - Prosiect Cymuned Fyd-eang
- Cydran 2 - Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol
- Cydran 3 - Prosiect Unigol

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 4: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 4



N = 369

Dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (36%) neu'n cytuno (38%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (12%) neu'n ansicr (4%). Dim ond 10% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 196 o ymatebwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.3.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Dywedodd ymatebwyr y byddai lleihau nifer y cydrannau yn **gwella lles dysgwyr** drwy leihau baich gwaith a straen. Ystyrir bod y cymhwyster presennol yn feichus i rai dysgwyr, gan fynnu gwaith sylweddol ochr yn ochr â chymwysterau Lefel 3 eraill. Ystyriwyd bod lleihau nifer y cydrannau yn ffordd o leihau'r pwysau a deimlir gan ddysgwyr yn ystod Cyfnod Allweddol 5 a **gwella parodrwydd dysgwyr i ymgymryd** â'r cymhwyster.

'Rwy'n credu y gellir ystyried bod pedair cydran yn ormod ac erbyn i chi agosáu at y diwedd rydych wedi colli cymhelliant ac ymroddiad oherwydd maint a gofynion y pwnc.' [Dysgwr]

Dyweddodd ymatebwyr hefyd y byddai lleihau nifer y cydrannau yn **gwneud y cymhwyster yn fwy hydrin i athrawon**, sy'n golygu y byddai'n haws cyflawni'r cymhwyster o fewn yr amserlenni a neilltuwyd. Nododd yr ymatebwyr hyn fod y cymhwyster presennol yn rhy fawr i'w gyflenwi'n effeithiol a'i fod yn cynnwys gormod o waith papur ar gyfer cyflenwi ac asesu. Byddai'r cynnig yn sicrhau dull mwy penodol o ran addysgu, dysgu ac adnoddau.

'[Rydym yn cytuno] bod angen lleihau cynnwys y THS. [Rydym] yn ymwybodol bod aelodau sy'n cyflwyno'r cymhwyster a myfyrwyr yn credu bod y cynnwys presennol yn feichus ac yn ailadroddus. Mae baich gwaith staff yn bryder maith [gennym], a bydd lleihau'r cynnwys felly'n gwneud rhywfaint i leihau'r beichiau, o ran hydrinedd a gor-asesu sgiliau.' [Undeb athrawon]

Ochr yn ochr â gwneud y cymhwyster yn fwy hydrin i athrawon, ystyriwyd bod y cynnig hwn hefyd yn ffordd o **symleiddio strwythur cyflenwi'r cymhwyster**. Nododd ymatebwyr y byddai lleihau nifer y cydrannau yn gwneud y strwythur cyffredinol yn symlach i ddysgwyr ei ddeall ac i athrawon ei gyflenwi. Yn benodol, dywedasant y byddai'n haws cyflenwi'r strwythur cydrannau newydd dros ddwy flynedd yng Nghyfnod Allweddol 5, gyda'r Prosiect Cymuned Fyd-eang a Phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol yn cael eu cyflenwi yn y flwyddyn gyntaf a'r Prosiect Unigol yn yr ail flwyddyn.

Ystyriwyd bod y cynnig hwn hefyd yn fodd o **leihau dyblygu ac ailadrodd o ran dysgu ac asesu**. Dywedodd ymatebwyr y byddai lleihau nifer y cydrannau yn lleihau'r risg o ddyblygu ac ailadrodd rhwng pob cydran, yn ogystal â rhwng y THS Genedlaethol/Sylfaen bresennol yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r THS Uwch yng Nghyfnod Allweddol 5.

'Mae dileu'r Her Fenter yn newid cadarnhaol gan fod gorgyffwrdd amlwg rhwng yr her bresennol ac eraill (h.y. Cymuned) a bydd hyn felly'n lleihau dyblygu. Gyda'r fersiwn CA4 yn dal i redeg fel y mae (am y tro) bydd hefyd yn caniatáu dilyniant o'r dystysgrif Genedlaethol i'r Uwch nad yw'n amlwg i fyfyrwyr a rhai athrawon ar hyn o bryd oherwydd y cyffredinrwydd rhwng y ddwy fanyleb.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr hefyd yn credu y byddai'r cynnig hwn yn **sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi pwrpas y cymhwyster**. Roedd y gred hon yn seiliedig yn bennaf ar farn gadarnhaol ymatebwyr am y trosolwg o'r cydrannau newydd. Teimlent y byddai'r cydrannau arfaethedig yn sicrhau bod dysgwyr yn deall gwerth y cymhwyster wrth symud ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth, yn ogystal â deall ei werth i'w rôl fel dinasyddion byd-eang. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn sicrhau bod dysgwyr mewn sefyllfa

well i wneud penderfyniadau am eu dyfodol ac y byddent yn gwneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o'r ffordd y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig â heriau byd-eang.

'Mae'n wych gallu meddwl am fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol a chael fy annog i weithio'n well ac yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn wych deall beth mae eich dewisiadau'n ei wneud i chi'ch hun a'r bobl sydd o'ch cwmpas ar hyn o bryd.' [Dysgwr]

Byddai'r cynnig hefyd yn **gwella dealltwriaeth dysgwyr o bob cydran ac yn gwella datblygiad eu sgiliau** yn ôl ymatebwyr. Dywedasant y byddai lleihau nifer y cydrannau yn galluogi neilltuo mwy o amser i bob un o'r tair cydran, gan alluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth fanwl o'r pynciau a gwella sgiliau cysylltiedig. Fel y cyfryw, teimlai ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn **cefnogi dysgwyr i gyflawni gwell canlyniadau** yn y THS Uwch a chymwysterau lefel 3 cyfatebol (yn arbennig Safon Uwch). Teimlai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn cefnogi ffocws ar ansawdd gwaith dysgwyr, yn hytrach na swm y gwaith.

'Byddai mwy o amser yn cael ei ganiatáu ar bob prosiect ac ni fyddai'r prosiectau'n cael eu rhuthro. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, rwyf wedi teimlo bod yr addysgu wedi'i ruthro am fod rhaid i ni gadw i fyny â llawer o derfynau amser ac adlewyrchir hynny yn ansawdd y gwaith a gyflwynwyd.' [Dysgwr]

Ar brydiau, eglurodd ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig am eu bod yn credu bod **agweddau penodol yn ymddangos yn rhesymol**.

- Nododd ymatebwyr fod y cynnig penodol i **gyfuno'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol yn un Prosiect Cymuned Fyd-eang yn ymddangos yn rhesymol**. Yn benodol, roeddent yn teimlo bod y ddwy gydran flaenorol yn amlwg yn ymwneud â'i gilydd a bod yr elfen Her Gymunedol yn tueddu i fod yn amhoblogaidd ymhlith dysgwyr ac yn anodd i athrawon ei chyflenwi.
- Yn yr un modd, dywedodd ymatebwyr fod y cynnig penodol i **ddileu'r Her Menter a Chyflogadwyedd a chael Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol newydd hefyd yn ymddangos yn rhesymol**. Yn benodol, dywedodd ymatebwyr y byddai'r newid hwn yn lleihau'r dyblygu y tybir ei fod yn bodoli ar hyn o bryd rhwng y THS gyfredol yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r THS Uwch yng Nghyfnod Allweddol 5, ac yn rhoi pwyslais cliriach ar ddilyniant dysgwyr yn y dyfodol.
- Ar adegau, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod y Prosiect Unigol yn gydran werthfawr o'r cymhwyster a'u bod felly'n falch o'i weld yn cael ei gadw.

'Gobeithio y bydd uno'r cydrannau cymunedol a byd-eang yn helpu dysgwyr i weld y cysylltiad rhwng y ddau a deall sut y gall camau gweithredu lleol gael effeithiau byd-eang (nodwedd allweddol ar fod yn ddinesydd gweithgar). Mae gweithgareddau menter yn aml wedi'u 'gorwneud' mewn ysgolion erbyn i ddysgwyr gyrraedd CA5 ac yn aml nid

oeddent yn ychwanegu llawer o werth at ddealltwriaeth y dysgwyr o'u dyheadau/cyflogadwyedd yn y dyfodol.' [Consortiwm addysg rhanbarthol]

'Dim ond i ddysgwyr a oedd yn dewis entrepreneuriaeth yr oedd yr her fenter yn berthnasol; mae prosiect newydd cyrchfannau'r dyfodol fel petai'n fwy penagored ac felly'n berthnasol i fwy o fyfyrwyr.' [Dysgwr]

4.3.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Nododd ymatebwyr amrywiol **ystyriaethau ymarferol o ran gweithredu'r** cynnig hwn. Er enghraifft, roeddent yn teimlo bod yn rhaid ystyried ymhellach beth yn union y byddai'r cydrannau diwygiedig yn ei gynnwys; sut i sicrhau nad yw gormod o gynnwys yn cael ei uno i'r Prosiect Cymuned Fyd-eang; sut y byddai lleisiau dysgwyr yn cael eu hystyried yn ystod y broses hon; a sut y byddai'r cydrannau'n cael eu hasesu, gan gynnwys sut y gellid ardystio'r cymhwyster ar draws dwy flynedd o astudio.

'Rydym yn cytuno y byddai lleihau'r heriau (cydrannau) ar gyfer y THSU yn gwneud y cymhwyster yn fwy cyraeddadwy, ond mae hyn yn dal i fynnu bod y dysgwr yn cofrestru ar gyfer rhaglen ddwy flynedd i ennill y cymhwyster llawn. Mae angen strwythuro'r cymhwyster gydag ardystiad interim ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf gyda phwyntiau UCAS cyfatebol yn gysylltiedig â chymhwyster Safon UG ac ardystiad llawn ar ddiwedd dwy flynedd gyda'r gyfatebiaeth Safon Uwch lawn drwy dariff UCAS.'
[Darparwr AB]

Er eu bod yn cytuno ag egwyddor gyffredinol y cynnig, roedd rhai ymatebwyr hefyd yn **mynegi rhai amheuan ynghylch elfen benodol**. Yn benodol, nododd ymatebwyr fod yr Her Gymunedol yn werthfawr ac na ddylid ei cholli yn ystod y cyfnod pontio neu roeddent yn ansicr ynghylch sut y byddai cyfuno'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol yn gweithio'n ymarferol. Pwysleisiodd eraill fod yr Her Menter a Chyflogadwyedd yn cynnwys ffocws gwerthfawr ar sgiliau menter nad ydynt am eu colli yn ystod y cyfnod pontio.

'Trueni yw dileu'r agwedd Fenter yn ei chyfanrwydd, gan fod llawer o fyfyrwyr wedi mwynhau'r elfen entrepreneuriaidd, yn enwedig os oes ganddynt fwy o feddwl busnes ac os nad ydynt am fynd i'r Brifysgol, ond rydym yn cytuno bod darpariaeth y lefel Genedlaethol/Sylfaen a'r lefel Uwch yn aml yn debyg iawn.' [Darparwr AB]

Mynegodd ymatebwyr hefyd **wahaniaeth barn ar rai o'r newidiadau terminoleg** wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn, er na chodwyd y safbwyntiau hyn yn aml iawn mewn ymatebion. Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod defnyddio'r term 'Prosiect' yn fwy perthnasol i gynnwys y cymhwyster ac i gyfleoedd dilyniant, teimlai eraill nad oedd y term hwn yn briodol ar gyfer natur y cymhwyster. O bryd i'w gilydd, awgrymodd ymatebwyr hefyd nad yw teitlau'r cydrannau'n ddigon clir.

4.3.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cynnig hwn yn mentro **lleihau cynnwys cyffredinol ac oriau dysgu'r cymhwyster yn ormodol**, gan arwain o bosibl at ddiffyg cydraddoldeb â Safon Uwch a gostyngiad o'i gymharu â'r cymhwyster blaenorol. Teimlai rhai ymatebwyr mai **dim ond yn ystod Cyfnod Allweddol 4 y bu hydrinedd y cymhwyster yn broblem**, nid yng Nghyfnod Allweddol 5. Felly, roeddent o'r farn nad oedd angen lleihau maint y cymhwyster o gwbl.

'Mae'r THS Uwch yn cyfateb i TAG Safon Uwch ac mae'n cynnwys 360 o oriau dysgu dan arweiniad. Mae'r cynnig i leihau nifer y cydrannau yn y THS, ynghyd â'r cynnig i leihau'r sgiliau a'r cynnwys ym mhob Cydran a'r gostyngiad arfaethedig mewn oriau cyfranogiad cymunedol, yn mentro o ddifrif na fydd y cymhwyster yn ddigon mawr i gyfiawnhau 360 awr o ddysgu dan arweiniad. Gallai hyn arwain at rai sectorau, ac addysg uwch yn eu plith, yn credu nad yw'r cymhwyster bellach yn cyfateb o ran maint i TAG Safon Uwch. [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Ar brydiau, mae ymatebwyr wedi **anghytuno ag elfennau penodol** o'r cynnig.

- Teimlai rhai y byddai elfennau gwerthfawr yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol yn cael eu gwanhau pe baent yn cael eu cyfuno'n un Prosiect Cymuned Fyd-eang, er bod eraill yn teimlo nad oedd yr un o'r cydrannau hyn o werth arbennig.
- Mynegodd rhai gefnogaeth i'r Her Menter a Chyflogadwyedd, gan nodi siom y byddai'r her werthfawr hon yn cael ei diwygio.


4.4 Cynnig 5 - Strwythur

Dylai tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

- Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%
- Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%
- Prosiect Unigol – 50%

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 5: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 5



N = 365

Dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (34%) neu'n cytuno (39%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (12%) neu'n ansicr (6%). Dim ond 9% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 153 o ymatebwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.4.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r **Prosiect Unigol** gyfrannu 50% o'r cymhwyster cyffredinol gan ei bod yn ofynnol i ddysgwyr arddangos **sgiliau astudio annibynnol gwerthfawr**. Ystyrir bod y Prosiect Unigol yn dangos sgiliau y mae cyflogwyr a Phrifysgolion yn eu gwerthfawrogi. Nododd ymatebwyr fod dysgwyr yn ymrwymo cryn amser ac ymdrech i'r Prosiect Unigol a bod y pwysoliad arfaethedig yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

'Rwy'n credu mai'r prosiect unigol yw'r her fwyaf sylweddol, felly rwy'n hoffi mai'r prosiect unigol yw'r un sydd wedi'i bwysoli fwyaf o hyd. Mae'r prosiect unigol yn aml yn cyfrannu'n helaeth at bortffolios ac yn aml gellir ei ddefnyddio yn ystod cyfweiliadau prifysgol, ac yn y datganiad personol i ddangos y sgiliau a'r wybodaeth a fagwyd o'r prosiect.' [Dysgwyr]

'Mae'r pwysoliad ar y prosiect unigol yn fuddiol o safbwynt AU: mae dysgu annibynnol yn sgîl allweddol i AU, ac mae hyn yn adleisio gofynion o'r fath. Mae hefyd yn galluogi creadigrwydd, ac i fyfyrwyr ddilyn maes o ddiddordeb penodol iddynt.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Dywedodd ymatebwyr hefyd fod y cynnig yn cynrychioli **cydbwysedd mwy priodol rhwng cydrannau** (a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob cydran) na'r pwysoliad sydd yn y THS Uwch gyfredol. Ystyriwyd bod y cynnig hwn yn adlewyrchu'n well faint o waith y mae dysgwyr yn ei wneud ym mhob cydran. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cydbwysedd cyfartal arfaethedig rhwng y Prosiect Cymuned Fyd-eang a Phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol, sy'n adlewyrchu'r gwaith cyfartal y dylai dysgwyr ei wneud ym mhob cydran.

Ystyriwyd hefyd fod y cydbwysedd mwy cyfartal hwn rhwng pwysoliadau cydrannol yn **haws i athrawon a dysgwyr ei ddeall**. Ystyriwyd bod y pwysoliadau'n symlach ac yn gliriach, sy'n golygu y byddai athrawon a dysgwyr yn gallu deall sut mae'r gwaith y mae dysgwyr yn ei wneud ym mhob cydran yn cyfrannu at y radd derfynol gyffredinol. Dywedodd ymatebwyr fod hyn yn welliant o'r THS Uwch bresennol, lle mae pwysoliadau llai cyfartal yn ei gwneud yn anodd i athrawon a dysgwyr ragweld y radd gyffredinol derfynol.

'O dan y THS gyfredol, mae myfyrwyr (a staff) yn teimlo bod pwysoliad anghyfartal y tair Her yn peri dryswch a chafodd hyn effaith andwyol ar eu barn ar y marciau GFU a oedd ynghlwm a'r gwaith yr oedd angen iddynt ei wneud ym mhob Her. Roedd myfyrwyr yn aml yn teimlo'n siomedig eu bod yn gwneud llawer o waith yn eu Her Gymunedol pan nad oedd ond yn cynrychioli cyfran fechan o'r cymhwyster cyffredinol. Bydd y cynigion newydd yn dod â llawer mwy o gysondeb a dilysrwydd i'r cydrannau newydd.' [Darparwr AB]

Teimlai ymatebwyr, o ganlyniad, y byddai **diddordeb dysgwyr yn y THS Uwch yn gwella**. Roeddent yn teimlo y byddai dysgwyr yn fwy ymroddedig i bob cydran pe byddent yn deall yn union sut mae'r ymdrech a roddant i bob un yn cyfrannu at eu gradd derfynol. Er enghraifft, byddai dysgwyr yn gwybod bod angen iddynt wneud yr un faint o waith yn y Prosiect Cymuned Fyd-eang a Phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol, yn ogystal â sylweddoli bod y Prosiect Unigol yn gofyn mwy o ymrwymiad.

Ystyriwyd y cynnig hefyd yn ffordd o ddarparu **strwythur dilyniant clir dros gwrs dwy flynedd**. Esboniodd ymatebwyr y gellid cwblhau'r Prosiect Cymuned Fyd-eang a Phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol (gwerth 50% o'r cymhwyster o'u cyfuno) yn ystod blwyddyn gyntaf y THS Uwch a'r Prosiect Unigol (gwerth 50% hefyd) yn ystod yr ail flwyddyn. Roeddent o'r

farn y byddai hyn yn strwythur syml i athrawon ei ddilyn ac y byddai'n cynrychioli pontio priodol o'r ddwy gydran gyntaf i astudiaeth annibynnol.

Mynegodd ymatebwyr eraill gytundeb cyffredinol â'r cynnig heb unrhyw esboniad pellach.

4.4.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Y prif fater a godwyd gan ymatebwyr oedd yr angen i ystyried ymhellach (neu wybodaeth bellach am) **ansawdd a maint y gwaith a fyddai'n cael ei ddisgwyl** yn rhan o'r pwysoliadau hyn. Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r pwysoliadau arfaethedig ond yn cwestiynu faint o waith y byddai disgwyl i bob cydran ei gynnwys, pa sgiliau y byddai disgwyl i ddysgwyr eu dangos ym mhob cydran a sut i sicrhau nad yw'r Prosiect Cymuned Fyd-eang yn cynnwys gormod o gynnwys.

'Rhaid gofalu wrth gyfuno'r hen Her Gymunedol a'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang nad yw maint yr her (cydran) newydd gyfunol yn cyflwyno baich gwaith gormodol sy'n effeithio ar ei chwblhau. Am fod cymwysterau lefel 3 newydd wedi'u diweddarau gyda gofynion asesu ychwanegol, mae'n hanfodol bwysig nad yw'r cymhwyster newydd yn fwy na'r baich gwaith blaenorol. [Darparwr AB]

Nododd ymatebwyr hefyd fod angen ystyried **sut y byddai pob un o'r cydrannau hyn yn cael ei asesu**. Roedd hyn yn cynnwys holi pa mor drylwyr fyddai'r broses asesu ar gyfer pob cydran a sut / pryd y byddai asesiadau'n cael eu cynnal. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai mynnu bod dysgwyr yn cwblhau'r Prosiect Cymuned Fyd-eang a phrosiect Cyrchfannau'r Dyfodol yn y flwyddyn gyntaf yn caniatáu cymhwyster interim ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, fel sydd ar gael gyda Safonau UG.

'Rydym yn croesawu'r strwythur a awgrymir ac yn credu y bydd rhoi mwy o bwyslais ar y prosiect unigol yn beth cadarnhaol i ddysgwyr. Hoffem nodi y bydd angen i unrhyw fanylebau dylunio sicrhau bod y prosiectau hyn yn addas o galed, a'u bod yn dangos yn glir sut y caiff sgiliau dysgwyr eu hasesu.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Ail-bwysleisiodd ymatebwyr eraill bryderon ynglŷn â'r cynnig blaenorol (Cynnig 4) ond cytunwyd bod y pwysoliad arfaethedig yn briodol os caiff cydrannau eu lleihau o bedair i dair.

4.4.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Dywedodd ymatebwyr y **byddai pwysoliadau amgen yn fwy priodol**. O bryd i'w gilydd, dywedodd ymatebwyr y dylai'r tair cydran i gyd gael eu pwysoli'n gyfartal yn lle hynny, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn annog ymrwymiad cyfartal gan ddysgwyr ym mhob cydran. Roeddent yn aml yn teimlo na ddylai'r Prosiect Unigol gyfrannu 50% at y cymhwyster gan na fydd cryfderau dysgwyr bob amser yn perthyn i astudiaeth annibynnol. Roeddent yn teimlo bod dyrannu cymaint â 50% o'r radd derfynol i'r Prosiect Unigol yn rhoi

gormod o bwysau ar ddysgwyr yn ystod eu hail flwyddyn astudio ac yn creu gormod o ddisgwyliad mewn perthynas â'r Prosiect Unigol.

'Rwy'n credu bod 50% ar gyfer un uned yn ormod; rwy'n gwneud y pwnc hwn ers pedair blynedd, sef dwy flynedd ar lefel TGAU a dwy flynedd o Safon Uwch ac, yn bersonol, er ei bod yn gyraeddadwy i mi gael y radd... dylid ei ddsbarthu'n gyfartal ar draws y tair, felly dylai fod yn 30% ar gyfer byd-eang a dyfodol ac yna 40% ar gyfer unigol.' [Dysgwr]


4.5 Cynnig 6 – Strwythur Asesu

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu'r sgiliau cyfannol canlynol:

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau;
- Creadigrwydd ac Arloesedd;
- Cynllunio a Threfnu; ac
- Effeithiolrwydd Personol.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 6: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 6



N = 354

Dywedodd ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (32%) neu'n cytuno (45%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (12%) neu'n ansicr (3%). Dim ond 8% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 154 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.5.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ganolbwyntio ar y pedwar o Sgiliau Cyfannol, gan nodi mai'r rhain yw'r **sgiliau a werthfawrogir fwyaf gan gyflogwyr**. Amlygodd ymatebwyr natur drosglwyddadwy'r sgiliau hyn a'u pwysigrwydd ar gyfer cyflogadwyedd, gan awgrymu y byddai'r dull arfaethedig yn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer yr hyn a fydd yn ofynnol ganddynt yn y gweithle ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd 'byd go iawn'.

'Mae'r rhain yn sgiliau y mae ar bob dysgwr eu hangen ar gyfer cyflogaeth.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ystyriwyd hefyd fod y cynnig yn fuddiol wrth baratoi dysgwyr ar gyfer dilyniant i **addysg uwch**. Nododd ymatebwyr fod y rhain yn sgiliau pwysig nad ydynt fel arfer wedi'u datblygu'n dda mewn cymwysterau eraill ac nad ydynt yn cael eu hasesu yn y rhan fwyaf o bynciau Safon Uwch. Awgrymwyd mai'r rhain yw'r sgiliau y mae sefydliadau addysg uwch yn chwilio amdanynt gan ddysgwyr a bod y cynnig i ganolbwyntio arnynt yn rhan o'r THS Uwch yn cynnig cyfleoedd ychwanegol gwerthfawr i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i ystod o lwybrau gyrfa yn y dyfodol.

'Drwy ganolbwyntio ar sgiliau y mae cyflogwyr a phrifysgolion yn eu gwerthfawrogi, mae'n datblygu'r dysgwyr yn ymgeiswyr mwy cytbwys ar gyfer eu llwybr dewisol ar ôl Safon Uwch.' [Ysgol]

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at fanteision posibl y cynnig i athrawon a dysgwyr. Dywedasant y byddai lleihau'r sgiliau i'w hasesu i'r pedwar o Sgiliau Cyfannol **yn symleiddio'r broses i athrawon**, gan wneud y ddarpariaeth yn fwy hydrin. Awgrymwyd y byddai dileu sgiliau craidd llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol o'r asesu yn lleddfu'r pwysau ar athrawon heb arbenigedd yn y meysydd hynny. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai cyfyngu asesiad i'r pedwar o Sgiliau Cyfannol yn rhoi mwy o eglurder ac yn **galluogi dysgwyr i ganolbwyntio'n fanylach ar eu datblygiad yn y meysydd hyn**. Awgrymwyd y byddai'r cynnig yn helpu i osgoi'r dyblygu a'r ailadrodd canfyddedig sydd wedi bodoli hyd yma yn sgil asesu llythrennedd a rhifedd drwy feysydd eraill o'r cwricwlwm.

'Mae llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael eu hasesu yn ein pynciau eraill felly mae eu cynnwys yn hyn yn ymddangos yn ddiangen ac yn rhy gymhleth. Mae'n gwneud synnwyr bod y dystysgrif her sgiliau yn canolbwyntio ar y pedwar o sgiliau cyfannol.' [Dysgwr]

'Mae'n synhwyrol dileu'r asesiad o lythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol gan fod y rhain yn cael eu caffael a'u datblygu ar hyn o bryd o oedran ifanc ar draws y cwricwlwm ac mae hyn yn osgoi gorasesu a dyblygu diangen.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Nododd ymatebwyr fod y pedwar o Sgiliau Cyfannol a nodwyd **yn gyson â nodau a gweledigaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru**. Cadarnhaodd ymatebwyr ei bod yn bwysig bod y THS Uwch newydd yn darparu parhad wrth ddatblygu'r sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm cyfan. Yn ogystal, nodwyd y byddai'r ffocws ar y sgiliau hyn yn darparu dilyniant a pharhad o'r cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14-16 oed.

4.5.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Nododd ymatebwyr fod angen ystyried ymhellach y trefniadau ar gyfer asesu'r pedwar o Sgiliau Cyfannol. Nododd ymatebwyr fod diffyg eglurder yn y cynnig ynglŷn â'r meini prawf i'w defnyddio i asesu canlyniadau. Cydnabuwyd y gall asesu'r sgiliau hyn fod yn gymhleth, gyda rhai ymatebwyr yn rhoi sylwadau i egluro'r cymhlethdodau hyn.

'O safbwynt aseswr, mae mor, mor gymhleth asesu'r sgiliau hyn. Mae effeithiolrwydd personol yn berthynol i unigolyn, gallai rhywun fod wedi gwella ei hun yn aruthrol ond ei fod islaw'r safon o hyd o'i gymharu â set o feini prawf neu o'i gymharu â chyfoedion. [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Crybwyllodd ymatebwyr fod angen ymgynghori'n eang ag ymarferwyr ar ddatblygu fframwaith asesu a chanllawiau pellach, gan sicrhau bod model asesu effeithiol ac ymarferol yn cael ei ddatblygu. I'r un graddau, nododd ymatebwyr yr angen i sicrhau na chaiff ymarferwyr a dysgwyr eu llethu gan asesu.

'O ran asesu sgiliau yn y cymhwyster hwn, mae'n bwysig bod canllawiau'n cael eu datblygu i egluro'r disgwyliadau ar gyfer y sgiliau hyn ac amlinellu sut y gellir eu hasesu. Bydd hyn yn helpu athrawon i roi pwyslais addas ar ddatblygiad sgiliau dysgwyr.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai **llythrennedd a rhifedd barhau i gael eu hasesu rhywfaint** yn benodol. Os na chaiff llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol eu hasesu yn rhan o'r THS Uwch, pryderwyd y gallai hyn gyfleu'r argraff nad ydynt yn cael eu hystyried yn bwysig ar gyfer dilyniant dysgwyr. Yn gysylltiedig â hyn, nododd ymatebwyr fod tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn dangos nad yw'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu'n effeithiol yn rhan o addysgu a dysgu cyffredinol ym Magloriaeth Cymru ar hyn o bryd.

'Os nad asesir y math hwn o 'sgiliau wedi'u gwreiddio', yna mae angen rhyw fath o asesiad o llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn y cwricwlwm newydd, gyda datblygiad cynyddol o sgiliau disgyblion yn y meysydd hyn drwy gydol CA3 a CA4, fel y gall pobl ifanc ddangos tystiolaeth o'u gwybodaeth a'u sgiliau.' [Undeb athrawon]

Nododd ymatebwyr amrywiaeth o ystyriaethau yn ymwneud â'r cynnig hwn. Mewn rhai achosion, awgrymodd ymatebwyr y **dylai fod mwy o bwyslais ar rai sgiliau (yn enwedig Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau)**, a bod angen gweithio gyda chyflogwyr i benderfynu pa sgiliau a ddylai gael y pwysoliad mwyaf.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd ddiwygiadau ac ychwanegiadau i'r pedwar o Sgiliau Cyfannol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod **sgiliau cyfathrebu yn cael eu hamlygu yn y sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u hasesu**. Holodd ymatebwyr a oedd cyfathrebu effeithiol yn cael ei ymgorffori yn y sgil *Effeithiolrwydd Personol*. Awgrymwyd hefyd y gallai cyfathrebu ddisodli *Cynllunio a Threfnu*.
- Hyrwyddo **gwaith tîm a sgiliau arwain**.
- Gan gynnwys sgiliau **addysg ariannol a rheoli ariannol**.
- Sicrhau bod **sgiliau dwyieithog dysgwyr yn cael eu hasesu a bod cynnydd yn y maes hwn yn cael ei gydnabod**.

'Yn rhan o'r strategaeth ar gyfer y sector ôl-16, mae angen sicrhau bod dysgwyr a myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Cymraeg o lefel o ymwybyddiaeth i ddealltwriaeth i hyder i ruglder, a dylid ymgorffori'r model pyramid hwn yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch.' [Darparwr AU]

4.5.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Mynegodd ymatebwyr bryderon y **gellid gostwng gwerth y cymhwyster newydd a'i feirniadu am ddiffyg trylwyredd** drwy beidio bellach ag asesu llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn benodol. Awgrymwyd bod asesu'r tri o sgiliau hyn yn rhoi hygredd academaidd i'r cymhwyster presennol. Teimlwyd y gallai'r cynnig ddileu trylwyredd y cymhwyster ym marn sefydliadau addysg uwch, a allai, o ganlyniad, ei ystyried yn llai 'academaidd gadarn' gan beidio â'i dderbyn yn ddewis yn lle Safon Uwch. Awgrymwyd bod perygl, o ganlyniad i'r cynnig hwn, y gallai rhieni a dysgwyr gwestiynu gwerth y cymhwyster.

'Na, mae hyn yn dileu'r trylwyredd academaidd sydd ei angen ar y cymhwyster. Ni fydd llawer o fyfyrwyr am gymryd y cymhwyster a byddwn wedi dychwelyd i sefyllfa flynyddoedd yn ôl pan oedd gan rieni a myfyrwyr agwedd negyddol am y cymhwyster. Rydym mewn lle da iawn ac mae'r cymhwyster presennol wedi helpu llawer o fyfyrwyr o Gymru i gyflawni'r gofynion mynediad ar gyfer llawer o brifysgolion.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Yn yr un modd, cyfeiriodd ymatebwyr at yr amser a'r ymdrech a dreuliodd i sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei dderbyn fel 'cymhwyster Lefel 3 cadarn ac academaidd deilwng'. **Teimlwyd bod gwaredu'r asesiad sgiliau craidd yn mentro niweidio ei enw da.**

Cyfeiriodd ymatebwyr at ystod o resymau eraill dros anghytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn **wrthddywediad yn y rhesymeg dros y cynnig a nodir yn yr ymgynghoriad**.

'Yn adran 2.8.1 o'ch dogfen, dadleuir bod rhai sgiliau wedi'u hymgorffori yn yr Heriau presennol ond nad ydynt wedi'u hasesu'n benodol a bod hyn yn annheg i'r myfyrwyr. Sut mae'r ddatl hon yn cyfuno ag ymgorffori llythrennedd, llythrennedd digidol a rhifedd drwy gydol y cymhwyster newydd ond heb eu hasesu'n benodol?' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno â'r ffocws ar y pedwar o Sgiliau Cyfannol, gan honni y dylai'r sgiliau hyn **gael eu gwreiddio a'u datblygu o fewn pynciau craidd**. Roedd ymatebwyr hefyd yn cwestiynu a oedd y ffocws ar y pedwar o Sgiliau Cyfannol yn briodol.


'Er gallai'r pethau hyn helpu rhywun ar y ffordd i gael swydd, yn y pen draw nid dyma'r pethau pwysicaf i fod yn eu dysgu; rydych yn codi'r holl sgiliau hyn o bynciau eraill fel ieithoedd a chelfyddydau felly nid oes angen mynd yn ôl dros y pynciau hyn.' [Dysgwr]

4.6 Cynnig 7 – Strwythur Asesu

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r sgiliau hyn fod yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni ddylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 7: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 7



N = 343

Dyweddod ychydig o dan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (30%) neu'n cytuno (32%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (18%) neu'n ansicr (4%). Roedd cyfanswm o 16% yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 165 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.6.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai llythrennedd, rhifedd a sgiliau mewn cymhwysedd digidol gael eu **datblygu yn rhan o'r THS Uwch newydd, a'u gwreiddio drwy'r holl gymhwyster, heb y gofyniad i'w hasesu fel canlyniadau dysgu ffurfiol**. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn bwysigrwydd y tri o sgiliau hyn a'r angen i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'u prosiectau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ochr yn ochr â'r Sgiliau Cyfannol.

'Mae'r sgiliau hyn yn dal yn hanfodol er mwyn i'n dysgwyr ddatblygu ac maent yn sgiliau angenrheidiol i weithredu mewn cymdeithas. Cytunaf na ddylent fod yn ganlyniadau dysgu ynddynt eu hunain, ond dylid pwysleisio eu pwysigrwydd o hyd. Dylai prosiectau ysgrifenedig barhau i adlewyrchu lefel y llythrennedd a ddisgwylir gan gymhwyster lefel 3, ynghyd â'r defnydd mwy o dechnolegau digidol a dadansoddiad rhifedd cymhleth.'

[Darparwr AB]

Awgrymwyd y gallai asesu'r sgiliau **ychwanegu at gymhlethdod y model asesu ac arwain at ailadrodd diangen**. Nododd ymatebwyr fod cyflogwyr yn aml yn cyfeirio at gymwysterau eraill i ddarparu tystiolaeth o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Fel y cyfryw, ni fyddai cynnwys asesiad ychwanegol o'r sgiliau hyn yn rhan o'r THS Uwch o fudd i ddysgwyr.

Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, nododd ymatebwyr fod dysgwyr yn cael eu **hasesu'n ffurfiol eisoes ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy gymwysterau eraill**. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn fod dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy gydol eu haddysg statudol. Nododd eraill y dylai'r sgiliau hyn gael eu hasesu'n ffurfiol drwy bynciau TGAU craidd ac nid yn rhan o gymwysterau eraill.

'Mae dysgwyr eisoes wedi cael eu hasesu ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn sawl cyfnod yn eu gyrfya academaidd. Nid oes angen asesu sgiliau Llythrennedd Digidol. Yn arbennig yn yr hinsawdd bresennol hon mae dysgwyr yn dangos lefel uchel iawn o gymhwysedd digidol.'

[Darparwr AB]

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at les dysgwyr yn rheswm dros gytuno â'r cynnig. Trwy ddileu'r asesiad o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, teimlwyd y gallai'r cynnig **leihau straen ar ddysgwyr sydd eisoes yn destun cryn dipyn o asesu**. Awgrymwyd hefyd y **gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr** drwy roi cyfleoedd iddynt ddatblygu a rhoi sgiliau ar waith heb iddynt gael eu hasesu'n ffurfiol.

'Rwy'n cytuno â'r nod cyffredinol sef y caniateir mwy o gydbwysedd rhwng yr amser a dreulir ar ddatblygu sgiliau a'r amser a dreulir ar eu hasesu, drwy ganolbwyntio asesu ar y pedwar o sgiliau cyfannol. Drwy wneud asesu'n hydrin, gellir gwneud y mwyaf o amser ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau, a lleihau pwysau arholiadau ar bobl ifanc.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Awgrymodd ymatebwyr fod y **trefniant presennol, lle caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu, yn rhoi disgyblion llai galluog o dan anfantais** ac yn gallu eu hatal rhag cyflawni graddau da. I'r dysgwyr hynny sydd eisoes yn cael anawsterau ag agweddau ar lythrennedd neu rifedd, awgrymwyd y gall pwyslais ar asesu yn y meysydd hyn olygu nad ydynt yn cyflawni eu potensial llawn. **Felly, ystyriwyd bod y cynnig yn decach i bob dysgwr.**

Drwy beidio â chael canlyniadau dysgu ar gyfer rhifedd a llythrennedd, nododd ymatebwyr hefyd y **gallai hyn hefyd gael effaith gadarnhaol ar faich gwaith ymarferwyr**, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar gefnogi Sgiliau Cyfannol dysgwyr.

4.6.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Bu ymatebwyr yn rhoi sylwadau neu'n mynegi amheuon ynghylch agweddau ar y cynnig. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn cwestiynu sut y byddai'r trefniant yn gweithio'n ymarferol: **os na chaiff llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol eu hasesu, roedd ymatebwyr yn meddwl tybed sut y byddai athrawon yn gallu penderfynu a yw'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu.**

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid ymgorffori rhyw fath o asesiad o'r sgiliau hyn yn y cymhwyster. Ymhlith y rhain, awgrymodd rhai y gallai dysgwyr **gael eu hasesu ar eu gwelliant mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.** Holodd eraill a ellid cynnwys asesu'r sgiliau hyn fel elfen ychwanegol ddewisol o fewn y model asesu neu a ellid eu hasesu'n anffurfiol.

'Rwy'n cytuno na ddylid asesu myfyrwyr ar y sgiliau hyn ar wahân drwy waith prosiect, ond dylid eu hasesu'n anffurfiol i arwain a chefnogi os oes angen heb y pwysau ychwanegol o gyflawni canlyniadau dysgu gosodedig.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Rwy'n teimlo na ddylai fod yn brif ffocws ond byddai'n braf pe gallai pobl ennill marciau ychwanegol drwy ddangos sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol da yn eu gwaith.' [Dysgwr]

4.6.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Pwysleisiodd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn fod y sgiliau dan sylw yn **sgiliau hanfodol y dylid eu hasesu er mwyn mesur hyfedredd dysgwyr mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd a digidol.** Soniodd ymatebwyr eraill fod angen cadw sgiliau llythrennedd a rhifedd fel canlyniad dysgu eglur ac asesedig gan ei fod yn sicrhau bod dysgwyr yn canolbwyntio ar y sgiliau pwysig hyn. Nododd ymarferwyr nad yw'n ofynnol i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 5 barhau i astudio iaith neu fathemateg ac y gall y THS sicrhau

datblygiad parhaus sgiliau craidd, y dylid eu hasesu er mwyn dangos tystiolaeth o gynnydd a nodi lle mae angen datblygiad neu gymorth pellach.

Pe na fyddai'r sgiliau hyn yn cael eu hasesu, awgrymodd ymatebwyr **na fyddent yn cael blaenoriaeth ac efallai na fyddent yn cael digon o sylw yn rhan o brosiectau a rhaglenni dysgu**. Roeddent yn teimlo y gallai pwysigrwydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol gael ei leihau o dan y trefniadau arfaethedig. Gan adleisio sylwadau a roddwyd mewn ymateb i'r cynnig blaenorol, nododd ymatebwyr bryderon y gallai enw da'r cymhwyster gael ei ddifrodi drwy beidio ag asesu'r sgiliau craidd hyn.

'Os nad ydych yn eu hasesu'n uniongyrchol, rydych yn lleihau eu pwysigrwydd. Y gwir amdani yw hyn, dim ond os ydynt yn gwybod y byddant yn cael eu hasesu y bydd myfyrwyr yn gweithio ar rywbeth neu'n datblygu rhywbeth. Felly'r gwir yw hyn - ni fydd y sgiliau hyn yn datblygu ar gyfer y rhai mewn addysg ôl-16. Rwy'n credu y dylai'r sgiliau hyn fod wrth wraidd yr her sgiliau ac os ydym yn annog dysgu gydol oes, dylent ddatblygu ac asesu'r rhain drwy gydol y cyfnod ôl-16. [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai dysgwyr **yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd y cynnig**. Os yw'r sgiliau wedi'u gwreiddio a bod disgwyl i ddysgwyr ddatblygu a rhoi'r sgiliau ar waith, awgrymwyd bod gan ddysgwyr hawl i weld canlyniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r sgiliau perthnasol yn rhan o'r cymhwyster.


'[Rydym] yn gwrthod yn gryf y cynnig y dylai sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol gael eu hymgorffori ond heb eu hasesu. Credwn mai holl ddiben cymhwyster sy'n seiliedig ar gymwyseddau yw cyfuno sgiliau, gwybodaeth ac arfer meddwl. Wrth gyfeirio at 2.73, nid ydym wedi ein darbwyllo gan y rhesymeg y tu ôl i'r datganiad "na fydd ymgorffori'r sgiliau hyn, yn hytrach na'u hasesu'n benodol, yn rhoi'r dysgwr o dan anfantais". ...os derbyniwn fod y sgiliau hyn yn fantais ynddynt eu hunain, yna mae'r fantais i'r dysgwr, drwy ddiffiniad, yn lleihau.' [Undeb athrawon]

4.7 Cynnig 8 – Strwythur Asesu

Dylai pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu'r pedwar Sgîl Cyfannol i gyd. Gallai pob sgîl gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgîl gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Figur 8: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 8



N = 338

Dyweddodd ychydig o dan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (21%) neu'n cytuno (41%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (18%) neu'n ansicr (9%). Dim ond 11% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 116 o ymatebwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.7.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Mae dwy elfen wahanol ond cydberthnasol i'r cynnig hwn: mae'r elfen gyntaf yn ymwneud â phwysoliad gwahanol ar gyfer pob sgîl ar lefel cydran; yr ail yw'r cynnig bod yr holl sgiliau'n cyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster cyffredinol.

Ar y pwynt cyntaf, cytunodd ymatebwyr y dylid cymhwyso pwysoliad gwahaniaethol ar gyfer pob sgîl i bob cydran. **Nodwyd bod rhai Sgiliau Cyfannol yn fwy perthnasol i rai prosiectau a'i bod yn synhwyrol felly cynllunio strwythur asesu sy'n adlewyrchu hyn, wedi'i bwysoli'n briodol ar gyfer pob cydran.** Rhoddodd ymatebwyr enghreifftiau i ddangos y pwynt hwn, gan gynnwys y gallai dysgwyr gymhwyso a dangos Sgiliau Meddwl yn Feirniadol yn haws yn rhan o'r Prosiect Cymuned Fyd-eang, tra gallai'r Prosiect Unigol gynnwys mwy o ffocws ar Greadigrwydd ac Arloesedd.

'Rwy'n cytuno, yn enwedig o ran pwysoli'r sgiliau ym mhob cydran yn dibynnu ar yr hyn sy'n ofynnol ganddynt; yn y cymhwyster presennol, mae rhai sgiliau'n bendant yn cael eu gorfodi i'w lle'n lletchwith er mwyn eu hasesu yn unig, er enghraifft Rhifedd yn y sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd sy'n gweithio i'r Fenter Arloesi ond yn llai felly ar gyfer y Cynllun Cyrchfan.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r **pwysoliad gwahaniaethol o sgiliau ar draws y prosiectau ddileu ailadrodd sgiliau sy'n digwydd o dan y cymhwyster presennol**. Nodwyd bod dysgwyr ar hyn o bryd yn treulio amser yn ailadrodd sgiliau ar draws meysydd, sy'n cael ei ystyried yn ddiangen ac sy'n gallu lleihau eu cymhelliant.

'Canlyniad mwyaf cadarnhaol y newid hwn fydd lleihau dyblygu asesiadau ar draws y prosiectau. Mae'r strwythur presennol yn asesu gormod o sgiliau heb ddigon o ddyfnder felly dylai hyn osgoi hynny, gobeithio.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Nododd ymatebwyr y byddai'r model arfaethedig yn caniatáu i ddysgwyr ailystyried sgiliau a **dangos eu gallu ym mhob sgil mewn gwahanol gyd-destunau**. Awgrymwyd y byddai hyn yn annog mwy o ffocws ar ddatblygu a rhoi sgiliau ar waith.

Mewn perthynas â'r ail bwynt yn y cynnig, nododd ymatebwyr fod **yr holl Sgiliau Cyfannol yr un mor bwysig â'i gilydd ac y dylent oll gyfrannu'r un peth at y radd gyffredinol**. Gan adleisio pwyntiau a godwyd mewn ymatebion i gynigion cynharach, nododd ymatebwyr fod y pedwar o Sgiliau Cyfannol i gyd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn berthnasol i addysg uwch a chyflogaeth yn y dyfodol, ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn strwythur asesu'r cymhwyster.

'Mae'r pedwar o sgiliau i gyd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd ac felly dylid eu hasesu yn unol â hynny a dylid caniatáu amser ar gyfer hyn. Maent i gyd yn berthnasol i'r prosiectau ac i ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Dylent fod yn hydrin i'w hasesu ac mae'n amlwg eu bod yn helpu i hysbysu myfyrwyr yn y fframwaith a gwella'r cymhwyster cyffredinol terfynol.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

4.7.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Mynegodd ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r dryswch posibl a achosir drwy roi gwahanol bwysoliad i'r pedwar o sgiliau ym mhob un o'r cydrannau. Teimlai'r ymatebwyr hyn mai'r nod ddylai fod symleiddio asesu a pheidio â chreu fframwaith asesu ychwanegol, rhy gymhleth sy'n anodd ei weinyddu ac sy'n anodd i ddysgwyr ei ddeall.

Teimlai ymatebwyr eraill fod **angen iddynt weld mwy o fanylion cyn gallu cynnig cefnogaeth lawn i'r cynnig**. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau manwl ar sut y byddai pob sgil yn cael ei asesu ym mhob cydran newydd. Nododd rhai eu bod yn teimlo y byddai angen iddynt gael profiad uniongyrchol o'r asesiad er mwyn gallu llunio barn wybodus.

'Credwn fod hyn yn swnio'n rhesymegol, ond byddem am weld sut mae'n gweithio'n ymarferol. Cytunwn mewn egwyddor. Y perygl yw drysu'r broses o weinyddu'r asesiad o ran pwysoli. Byddem am i hyn fod yn glir ac yn gyson. [Darparwr AB]

Crybwyllodd ymatebwyr fod angen osgoi 'gor-asesu sgiliau ar draws gwahanol gydrannau', a hynny'n cael ei ystyried yn broblem o dan y cymhwyster presennol.

Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai ymatebwyr a oedd yn ansicr ynglŷn â'r cynnig yn **pryderu sut y gellid defnyddio grid asesu yn ymarferol, gan nodi y gallai ddod yn 'artiffisial' neu'n 'orfodol'**. Dadleuwyd efallai na fydd rhai sgiliau'n berthnasol o gwbl i rai cydrannau.

'Mae'n bwysig asesu beth sy'n digwydd yn naturiol ym mhob un o'r heriau, a pheidio â gorfodi sgiliau i'w lle yn y meini prawf asesu er mwyn gwneud hynny.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd rhai ymatebwyr yn swnio'n wylriadwrus ynglŷn â'r cynnig hwn, gan bwysleisio bod angen egluro'r ffordd y caiff briffiau/gofynion prosiectau eu nodi er mwyn osgoi dryswch ymhlith dysgwyr.

'Bydd cynnig fel yr un uchod yn mynnu cynllunio cymwysterau'n ofalus er mwyn osgoi ailadrodd a sicrhau sylw, ac yn bwysig rhaid i gynllun y cymhwyster hwn hefyd fod yn ddigon syml i bobl ifanc ei ddeall fel bod y strwythur asesu yn dryloyw iddynt, ac nid yn ddryslyd. Bydd cael strwythur clir yn eu helpu i deimlo y gallant baratoi ar gyfer asesu a deall sut y bydd hyn yn digwydd.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

4.7.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dadlau na fyddai rhai o'r Sgiliau Cyfannol **efallai'n berthnasol ym mhob cydran ac y byddai asesu'r sgiliau ym mhob cydran yn creu beichiau asesu diangen**. Awgrymodd ymatebwyr y dylai gwahanol elfennau asesu sgiliau penodol sy'n berthnasol i'r prosiect hwnnw.

'Efallai y byddai'n haws canolbwyntio ar Gynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol yn rhan o'r Prosiect Unigol. Byddai hyn yn caniatáu i'r ddau brosiect arall ganolbwyntio ar Feddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau a Chreadigrwydd ac Arloesedd. Byddai hyn yn ei gwneud yn llawer haws asesu.' [Undeb Athrawon]

Cododd ymatebwyr a oedd yn anghytuno nifer o bwyntiau eraill:

- Roedd rhai'n anghytuno â'r rhaniad cyfartal arfaethedig rhwng y Sgiliau Cyfannol (lle mae'r pedwar o sgiliau i gyd yn cyfrannu 25 y cant at ganlyniad cyffredinol y

cymhwyster). **Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y dylai Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau ddal mwy o bwysoliad.**


- Awgrymodd rhai y dylai pob un o'r sgiliau gael ei **bwysoli'n gyfartal ym mhob cydran**, er eglurder i osgoi sefyllfa lle mae dysgwyr yn teimlo dan anfantais mewn unrhyw brosiect penodol sy'n cael ei bwysoli tuag at sgiliau mewn meysydd lle gallant fod yn llai hyderus.
- Roedd rhai'n gwrthwynebu'r Dystysgrif Her Sgiliau, gan ddadlau mai prin yw ei manteision i ddysgwyr ac y dylai fod yn ddewisol.
- Atebodd nifer fach 'anghytuno' ond gan ddadlau y dylai'r holl sgiliau gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster, sef yr hyn y mae'r cynnig yn ei hyrwyddo. Mae hyn yn awgrymu bod ychydig bach o ymatebwyr wedi camddechongli'r cwestiwn efallai.

4.8 Cynnig 9 – System Raddio

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd barhau i gael ei graddio A*-E.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 9: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 9



N = 336

Dywedodd bron yr holl ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig, gyda bron i ddwy ran o dair (63%) yn cytuno'n gryf a 28% yn cytuno. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (3%) neu'n ansicr (2%). Dim ond 4% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 140 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.8.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig oedd **sicrhau bod y THS Uwch yn cael ei graddio'n gyson â chymwysterau Lefel 3 eraill er mwyn sicrhau cydraddoldeb**. Weithiau, cododd ymatebwyr y pwynt hwn heb ymhelaethu, ond eglurodd eraill yn fanylach pam mae cydraddoldeb yn bwysig mewn systemau graddio.

Dywedodd yr ymatebwyr hyn yn aml y byddai graddio'r THS Uwch yn ôl A*-E yn gliriach ac yn haws ei deall i athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Byddai'r cynnig yn sicrhau nad oes dryswch ynghylch yr hyn y mae'r graddau'n ei olygu, gan fod graddau A*-E yn fodel cyfarwydd a sefydledig.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn rhoi **hygredded a dilysrwydd** i'r THS Uwch, drwy ei gwneud yn glir i rhanddeiliaid fod ganddi'r un gwerth â chymwysterau Lefel 3 eraill. Ystyrir bod defnyddio system raddio A*-E yn ffordd o ddangos i gyflogwyr a Phrifysgolion yn arbennig fod gan y cymhwyster gymaint o bwys â Safon Uwch a bod y cymhwyster yn un mor drwyadl.

'Rhaid graddio'r THS Uwch yn yr un modd â phob Safon Uwch arall fel bod gan y cymhwyster yr un gwerth a phwysigrwydd a bod ganddo gydraddoldeb ar draws y cwricwlwm. Byddai unrhyw beth gwahanol i'r trefniadau graddio presennol yn achosi dryswch a gallai fentro gostwng gwerth y cymhwyster.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Fel y cyfryw, teimlai ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn **hwyluso dilyniant dysgwyr i gyflogaeth ac addysg uwch**. Yn eu barn hwy, gan fod Prifysgolion a chyflogwyr yn gyfarwydd â systemau graddio A*-E ac yn debygol o ddeall dilysrwydd y cymhwyster o ganlyniad, byddent yn fwy tebygol o dderbyn y THS Uwch yn rhan o ofynion mynediad i gyflogaeth neu ar gyrsiau addysg uwch.

'Bydd gwerth y cymhwyster yn cael ei ostwng heb system raddio ar waith a byddai gan ddysgwyr llai o gymhelliant i lwyddo. Mae nifer gynyddol o ddysgwyr L3 [lefel 3] yn cael eu derbyn i brifysgolion ac ymlaen i brentisiaethau gradd lefel uwch oherwydd eu llwyddiant gyda'r THS Uwch.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ystyriwyd bod y cynnig hwn hefyd yn **decach nag opsiynau graddio amgen posibl**. Nododd ymatebwyr fod system raddio A*-E yn **adlewyrchu'n fwy uniongyrchol faint o waith y mae dysgwyr wedi'i wneud i'r cymhwyster**, yn hytrach na model llwyddo/methu lle gallai dysgwyr fethu â chyflawni cymhwyster er iddynt gwblhau rhai elfennau o'r gwaith gofynnol. Roedd ymatebwyr felly'n credu bod y cynnig yn deg gan y byddai'n caniatáu i ddysgwyr gyflawni gradd sy'n briodol i'w lefel gallu.

Fel y cyfryw, dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn **cynyddu diddordeb dysgwyr** yn y THS Uwch, gan y byddai **cydberthynas uniongyrchol rhwng maint eu gwaith tuag at y cymhwyster a'u gradd derfynol**. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai

dysgwyr yn fwy tebygol o ymrwymo'n llawn i bob agwedd ar y cymhwyster pe gallent weld y byddai gwneud hynny'n gwella eu gradd derfynol. Mae hyn yn cymharu â model llwyddo/methu sy'n cynnig dau ganlyniad yn unig i ddysgwyr waeth beth fo lefel eu hymroddiad.

'Byddai marc uwch yn gallu dangos y gwaith caled a wnaed yn y dystysgrif gan y myfyriwr, heb fod marc llwyddo yn unig yn adlewyrchu hynny. Yn yr un modd, byddai cael dull llwyddo/methu yn achosi i fyfyrwyr gollu diddordeb a pheidio â gweithio mor galed. Un dyfyniad rwy'n ei glywed yn aml am bynciau/cymwysterau llwyddo/methu yw "Does dim ots, dim ond pasio mae'n rhaid imi ei wneud".' [Dysgwr]

4.8.2 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn gwneud hynny'n bennaf am eu bod yn teimlo y **byddai system raddio amgen yn fwy priodol**. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai model llwyddo/methu, neu fodel llwyddo/teilyngdod/rhagoriaeth yn fwy priodol gan nad ydynt yn ystyried bod y THS Uwch yr un math o gymhwyster â Safon Uwch 'draddodiadol'. Pwysleisiodd eraill y byddai angen mwy o drylwyredd yn y ffordd y mae'r cymhwyster yn cael ei gyflenwi a'i asesu cyn y byddai system raddio A*-E yn briodol. Awgrymodd un ymatebydd yn benodol na fyddai system raddio A*-E o reidrwydd yn cefnogi datblygiad talentau nac yn sicrhau lles a hunan-barch gorau dysgwyr.

'Hyd yn oed pan fydd gweithwyr proffesiynol yn dathlu cyflawniad ar bob lefel, nid yw bob amser yn wir fod graddau D ac E yn teimlo fel llwyddiant i bobl ifanc. Gall hyn fod oherwydd bod cymdeithas ehangach yn aml yn gallu deall unrhyw radd islaw C fel methiant i lwyddo... Felly, nid yw'r graddau hyn bob amser yn gyson â datblygu'r lles a'r hunan-barch gorau posibl, ac nid ydynt bob amser yn gyson â datblygu sgiliau i'r eithaf gan y gallant leihau cymhelliant pobl ifanc... Fy newis i fyddai mabwysiadu system raddio heb arwyddocâd negyddol A-E, ac sy'n cydnabod cyflawniad mewn ffordd gadarnhaol. [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]*


Weithiau, manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hwn i ail-bwysleisio sylwadau cynharach yn ymwneud â'r angen i ddod â'r THS Uwch i ben yn gyffredinol neu fynegi eu barn y dylai'r THS Uwch barhau fel cymhwyster ond na ddylid ei raddio.

4.9 Cynnig 10 – System Raddio

Dylai dysgwyr allu cyflawni gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnir ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 10: Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ac yn anghytuno â chynnig 10



N = 334

Dyweddodd tri chwarter yr ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (40%) neu'n cytuno (35%) â'r cynnig. Roedd cyfrannau llai yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol â'r cynnig (11%) neu'n ansicr (4%). Dim ond 10% oedd yn anghytuno â'r cynnig i ryw raddau.

Dewisodd cyfanswm o 135 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau hyn.

4.9.1 Rhesymau ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig

Dyweddodd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn **sicrhau cydraddoldeb rhwng y THS Uwch ddiwygiedig a chymwysterau Lefel 3 eraill** (a lefelau addysg uwch). Nodwyd bod y cymwysterau eraill hyn hefyd yn mabwysiadu dull digolledu ac yn caniatáu ailsefyll; fel y cyfryw, barnwyd ei bod yn briodol i'r THS Uwch ddilyn yr un dull. Awgrymwyd hefyd y byddai'r dull cyson hwn yn ei gwneud yn haws i ddysgwyr ei ddeall, gan y byddai'n gyfarwydd o gymwysterau eraill. Pwysleisiodd ymatebwyr fod cyfuno marciau (p'un a lwyddwyd ai peidio ym mhob modiwl neu uned unigol) i ddarparu gradd derfynol yn ddull safonol o raddio cymwysterau ac felly dylai fod yn berthnasol yn yr achos hwn.

Ystyriwyd hefyd fod y cynnig yn **deg**, er i ymatebwyr roi rhesymau gwahanol dros deimlo bod y cynnig yn deg. Teimlai rhai fod y cynnig yn deg oherwydd byddai dysgwyr yn destun yr un system raddio ar draws gwahanol gymwysterau. Teimlai eraill y byddai caniatáu ailsefyll yn sicrhau bod dysgwyr yn cael ail gyfle i lwyddo, a hynny'n cael ei ystyried yn beth teg. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod dull digolledu yn deg, a hwythau'n credu ei bod yn annheg methu cymhwyster wrth gyflawni marciau uchel ym mhob maes sgiliau ar wahân i un.

'Mae'r trefniadau presennol yn annheg. Gall myfyrwyr ailsefyll cymwysterau Lefel 3 eraill ond ni allant ailsefyll elfennau o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch felly dylai'r newid hwn sicrhau cydraddoldeb â chymwysterau eraill a astudir.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn **sicrhau bod unrhyw amgylchiadau personol neu esgusodol a allai effeithio'n negyddol ar berfformiad dysgwyr yn cael eu hystyried** yn y system raddio. Mae tri phrif fath o amgylchiadau y gallai'r cynnig eu lleddfu, yn ôl ymatebwyr.

- Amlygodd rhai ymatebwyr amgylchiadau esgusodol penodol a allai effeithio ar allu dysgwyr i lwyddo ym mhob cydran, er enghraifft: angen gadael y cwrs cyn cwblhau'r cymhwyster; symud ysgol a bod angen amser arnynt i addasu; neu ddysgwyr y mae angen iddynt ymgysgu â'r THS Uwch os nad oeddent wedi astudio tuag at y THS yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Amlygodd eraill fod angen sicrhau bod y cymhwyster yn gyraeddadwy i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd a chyda gwahanol lefelau sgiliau. Ystyrir bod y cynnig yn ffordd o sicrhau na fydd y rhai sy'n cael trafferth gyda sgiliau penodol yn cael eu gwahardd rhag cael gradd.
- Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn cydnabod gwaith o ansawdd da a gwblhawyd gan ddysgwyr drwy gydol y flwyddyn hyd yn oed os yw dysgwyr yn wynebu heriau wrth ymgymryd ag asesiadau terfynol.

'Gall myfyriwr weithio'n galed iawn ar bob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, ac yna salwch neu ddigwyddiad yn achosi i un rhan o'r dystysgrif syrthio heb fai o gwbl ar y myfyriwr. O ganlyniad, dylai'r myfyriwr allu darparu ar gyfer y digwyddiadau digynsail hyn sy'n effeithio ar eu perfformiad addysgol.' [Dysgwr]

Gwelwyd hefyd fod y cynnig yn **rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos a datblygu eu sgiliau mewn rhai cydrannau** hyd yn oed os yw cydrannau eraill yn fwy heriol iddynt. Pwysleisiodd ymatebwyr na fyddai pob dysgwr yr un mor gryf ym mhob maes sgiliau ac na ddylid ei gosbi os yw'n dangos cryfderau mewn rhai meysydd.

Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn sicrhau bod **gwelliant dysgwr yn cael ei gydnabod a'i annog** dros amser. Pwysleisiwyd y byddai darparu cyfleoedd i ddysgwyr ailsefyll cydrannau yn sicrhau bod y radd derfynol yn ystyried datblygiad parhaus sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr. Fel y cyfryw, ystyriwyd bod y cynnig hefyd yn ffordd o annog

diddordeb dysgwyr, gan y gallai ymrwymiad pellach i'r cymhwyster ac astudiaeth bellach arwain at radd uwch yn ystod ailsefyll.

'Nid oedd y 'cap ar basio' blaenorol wrth ailsefyll yn cyd-fynd â phynciau Safon Uwch eraill ac nid oedd yn cynnig unrhyw gymhelliant i ddysgwyr ymdrechu'n galed i gwblhau Her. Dylai dysgwyr gael ailsefyll, yn enwedig wrth iddynt ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o faterion byd-eang cymhleth ac ati. Maent yn aml yn cael eu hyrddio i gwblhau Heriau pan nad ydynt yn gwbl barod i'w sefyll, ond mae hyn yn aml yn angenrheidiol oherwydd cyfyngiadau amser a chyfyngiadau amserlennu.' [Darparwr AB]

Fel y cyfryw, credai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn **cefnogi dysgwyr i gyflawni eu canlyniadau gorau** posibl. Nodwyd y gallai mynnu bod dysgwyr yn llwyddo ym mhob cydran a'i gwneud yn ofynnol iddynt lwyddo ym mhob asesiad y tro cyntaf arwain at raddau is nag y gallent eu cyflawni fel arall. Yn yr ystyr hon, ystyriwyd bod y cynnig yn ffordd gadarnhaol o helpu dysgwyr i ennill gradd sy'n adlewyrchiad cywir o'u gallu cyffredinol.

'Rwy'n credu bod cymwysterau'n dangos brig eich gallu a brig yr hyn y gallwch ei gyflawni yn hytrach na'r cyfartaledd a gyflawnwch o ddydd i ddydd. Byddai'n frawychus cael eich cyfartaledd oherwydd gallai eich cyflawniadau uchaf fod yn llawer uwch na'ch sgôr gyfartalog ar gyfer eich pynciau.' [Dysgwr]

4.9.2 Materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Ar adegau, roedd ymatebwyr yn cwestiynu neu'n awgrymu sut y byddai'r cynnig yn cael ei **weithredu'n ymarferol**. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn ymwneud ag ymarferoldeb trefnu ailsefyll, er enghraifft cwestiynu sut y byddent yn gweithio gyda phrosiectau hirdymor, gan bwysleisio'r angen i ddisgyblion unigol gael cyfleoedd i ailsefyll (yn hytrach na grwpiau blwyddyn cyfan yn unig) a'r angen i sicrhau digon o amser addysgu a dysgu i gefnogi dysgwyr drwy ailsefyll. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen i sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei asesu'n drylwyr os gweithredir y cynnig.

'Mae'r dull ailsefyll a amlinellir yn ymddangos yn gymesur, ond sylwaf fod hyn yn golygu y gellid parhau i asesu pobl ifanc ar bob elfen o'r cymhwyster ddwywaith, ac ailadrodd yr asesiad cyfan ar gyfer y cymhwyster i bob pwrpas. Er fy mod yn croesawu'r cyfle i alluogi ailsefyll, credaf y dylai hyn ddod gyda chanllawiau clir na ddylai ailsefyll ddigwydd oni bai bod y person ifanc wedi gwneud y dewis hwn ei hun. [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Yn ogystal, roedd nifer fach o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu ailsefyll pob cydran unwaith (neu, ar adegau prin, ailsefyll unwaith ar draws y cymhwyster cyfan) ond yn anghytuno â'r cynnig na fyddai'n rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran i ennill gradd.

Nododd yr ymatebwyr hyn y dylid disgwyl i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran i ennill gradd briodol.

'Mae ailsefyll cydrannau yn gyson â chyrsgiau eraill ond nid oes gwrthwynebiad i ddysgwyr sy'n llwyddo ym mhob un er mwyn cael gradd gan fod hyn yn gyson â chymwysterau eraill nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]⁵

4.9.3 Rhesymau ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn aml yn teimlo y **dylid disgwyl i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran** er mwyn ennill gradd ar lefel cymhwyster. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y dylid disgwyl i ddysgwyr ddangos yr holl sgiliau a dealltwriaeth ofynnol ar draws pob cydran, gan nodi y byddai'n amhriodol cael gradd heb gwblhau'r holl waith gofynnol.

'Rwy'n credu, os yw'r cymhwyster yn ddigon trwyadl a bod ganddo lefelau asesu priodol, yna dylai fod myfyrwyr yn gorfod pasio pob un o'r 3 cydran i lwyddo... bydd hyn yn difrio'r cymhwyster.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

O ran caniatáu i ddysgwyr ennill gradd heb lwyddo ym mhob cydran, eglurodd rhai ymatebwyr ymhellach y **gellid ystyried bod hyn yn lleihau trylwyredd a dilysrwydd y THS Uwch** fel cymhwyster. Nodwyd risg na fyddai'r cymhwyster yn cael ei ystyried mor drwyadl â chymwysterau Lefel 3 eraill.

Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn anghytuno'n benodol â'r cynnig i ganiatáu ailsefyll pob cydran unwaith, gan bwysleisio bod ailsefyll yn aml yn anodd ei drefnu neu y dylid disgwyl i ddysgwyr lwyddo'r tro cyntaf.

5. Asesiad Effaith Integredig

Hefyd, cynhyrchodd Cymwysterau Cymru Asesiad Effaith Integredig o'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r adran hon yn crynhoi barn ymatebwyr am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

5.1 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Dewisodd cyfanswm o 143 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae dros draean o'r ymatebwyr naill ai:

- Wedi mynegi cytundeb cyffredinol â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a/neu'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad heb roi unrhyw sylwadau pellach; neu
- Wedi dweud eu bod yn ansicr neu nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.

Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau eraill.

5.1.1 Barn ar yr asesiad effaith

Roedd ymatebwyr yn cytuno bod y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad fel petaent yn canolbwyntio ar **les dysgwyr ac yn rhoi dysgwyr yn gyntaf** yn y broses ddiwygio. Nodwyd y dylai'r cynigion wella lles dysgwyr drwy leihau baich gwaith a straen cysylltiedig, gan gynnal gwerth y cymhwyster.

Cytunodd ymatebwyr hefyd fod y cynigion yn anelu at **wella diddordeb dysgwyr**. Dywedasant y byddai'r cynigion yn gwella annibyniaeth a mwynhad dysgwyr o'r cymhwyster, drwy ganiatáu i ddysgwyr ganolbwyntio ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt. Awgrymodd un ymatebydd yn benodol sut y gellid gwella ymgysylltiad dysgwyr ymhellach; nodwyd bod sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain yn bwysig, yn ogystal â rhoi cyfleoedd penodol i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu yng nghyd-destun y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r fframweithiau hawliau dynol.

'Gallai cael pwnc sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddewis eu meysydd astudio eu hunain newid y canlyniad mewn gwirionedd gan eu bod yn dewis yr hyn y mae ganddynt diddordeb ynddo yn hytrach na rhywbeth y mae'n rhaid iddynt ei wneud. Drwy gefnogi myfyrwyr i osod nodau cywir a pharatoi ar gyfer bywyd, credaf fod hyn yn help enfawr i fyfyrwyr nad oes ganddynt yr amser na'r bobl i siarad â hwy amdano, gall hyn roi hwb gwirioneddol i gymhelliant a dyheadau i lwyddo.' [Dysgwr]

Roedd ychydig o ymatebwyr hefyd yn ystyried bod y cynigion yn fodd o **wella ymgysylltiad athrawon** â'r cymhwyster a lleddfu eu baich gwaith. Ystyriwyd bod symleiddio strwythur y cymhwyster a lleddfu'r baich sy'n gysylltiedig â dyblygu gweithgarwch yn fodd o sicrhau bod athrawon yn parhau i ymgymryd â'r cymhwyster.

Nododd nifer fechan o ymatebwyr hefyd fod y cynigion yn berthnasol i newidiadau addysg ehangach yng Nghymru, yn enwedig y cwricwlwm newydd i Gymru.

5.1.2 Awgrymiadau pellach

Awgrymodd ymatebwyr sut i wella'r **broses asesu**. Roedd yr awgrymiadau'n amrywiol iawn, ac yn eu plith:

- Bod angen sicrhau mwy o drylwyredd yn y broses asesu (er enghraifft drwy symleiddio'r broses a chyflwyno dulliau asesu llymach, fel arholiadau);
- Bod angen symleiddio'r broses asesu a'i gwneud yn gyson (er enghraifft drwy sicrhau bod ymarferwyr yn marcio'n gyson); a
- Darparu tystysgrif interim ar ddiwedd y ddwy gydran gyntaf, a dyfarnu'r dystysgrif lawn ar ddiwedd y Prosiect Unigol.

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** o'r cymhwyster ymhlith rhanddeiliaid allweddol. Yn benodol, nododd ymatebwyr fod yn rhaid i brifysgolion ddeall gwerth y THS Uwch newydd a rhaid i statws y cymhwyster newydd fod yn glir i ymarferwyr, prifysgolion a dysgwyr.

'Mae'n bwysig ymgysylltu â phrifysgolion a sicrhau eu hymrwymiad i'r cymhwyster newydd. Os ydynt yn rhan o'r newidiadau ac yn teimlo eu bod wedi cyfrannu, maent yn fwy tebygol o gydnabod y cymhwyster gan ein dysgwyr.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd darparu **hyfforddiant ac adnoddau** i gefnogi'r rhai sy'n addysgu'r THS Uwch. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ymarferwyr y set sgiliau briodol i gyflwyno'r THS Uwch a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i'r cymhwyster yn amserlenni'r ysgolion. Yn ogystal, nododd ymatebwyr fod angen darparu cyfathrebu ac arweiniad clir ynghylch y THS Uwch newydd i ymarferwyr, gan sicrhau eu bod yn deall sut mae gweithredu'r THS Uwch newydd yn ymarferol.

'[Mae ymarferwyr] yn dweud wrthym ei bod yn heriol dod o hyd i athrawon sy'n 'arbenigo' mewn addysgu Bagloriaeth Cymru, neu'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel y gellid ei hadnabod. Credwn fod angen arian ychwanegol i recriwtio a hyfforddi pobl i addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch.' [Undeb athrawon]

Tynnodd eraill sylw at yr angen i ddarparu **amserlen resymol** ar gyfer gweithredu'r THS Uwch newydd, er mwyn galluogi ymarferwyr i gynllunio ac addasu cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster. Pwysleisiwyd bod angen i ymarferwyr ddatblygu neu gaffael adnoddau newydd ac ymgylfarwyddo â'r cymhwyster newydd.

Ar adegau, cododd nifer fechan o ymatebwyr amrywiaeth o faterion eraill i'w hystyried megis: sicrhau bod anghenion pob math o ddysgwyr yn cael eu hystyried; a'r angen i gwtogi ar y tasgau gweinyddu y mae angen i ymarferwyr a dysgwyr eu gwneud yn rhan o'r cymhwyster.

5.2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dewisodd cyfanswm o 117 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae dros draean o'r ymatebwyr naill ai:

- Wedi mynegi cytundeb cyffredinol â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a/neu'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad heb roi unrhyw sylwadau pellach; neu
- Wedi dweud eu bod yn ansicr neu nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.

Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau eraill.

5.2.1 Barn ar yr asesiad effaith

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad yn sicrhau **tegwch i ddysgwyr**. Wrth hyn, golygai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn rhoi cyfle cyfartal i bob dysgwr gyflawni canlyniadau da yn y cymhwyster waeth beth fo'i gefndir neu unrhyw anfantais a allai fod yn ei wynebu. Nodwyd bod gan bob dysgwr yr hawl i gael ei drin yn deg mewn perthynas â'r cymhwyster.

'Mae ein brwdfrydedd yn seiliedig ar y cynnig amlwg mai rhan o swyddogaeth [y cymhwyster] yw rhoi chwarae teg i ddysgwyr ddatblygu a dangos sgiliau a allai fel arall fod ar gael i'r rhai sy'n gallu cael mynediad at leoliadau, rhwydweithiau a gweithgareddau allgyrsiol strwythuredig yn unig. Yn yr un modd, mae'r cynnig na fydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar lythrennedd digidol (hyd yn oed lle mae hyn wedi'i wreiddio) yn awgrymu nad oes rheidrwydd i sicrhau eu bod yn cael mynediad at offer digidol.'

[Undeb athrawon]

Yn benodol, nododd ymatebwyr y byddai'r cynigion yn **cefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau mewn perthynas â'r cymhwyster presennol**. Fel y cyfryw, ystyriwyd bod y cynigion yn ffordd o fynd i'r afael ag unrhyw anfantais o ran canlyniadau dysgwyr a'u bod yn canolbwyntio'n glir ar gefnogi'r rhai sy'n debygol o gael trafferth gyda rhai elfennau o'r cymhwyster neu ag addysg ehangach.

'Un enghraifft dda yw ymgorffori sgiliau rhifedd, llythrennedd a digidol yn y dystysgrif. Er imi grybwyll o'r blaen fod y sgiliau hyn eisoes wedi'u datblygu'n dda gan fyfyrwyr yn y cyfnod hwn, bydd o fudd i'r myfyrwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu, rhwystrau ieithyddol/diwylliannol a'r rhai o gefndiroedd llai ffodus. [Dysgwr]

Crybwyllodd ymatebwyr hefyd y byddai'r cymhwyster newydd yn **annog dysgwyr i barchu a deall amrywiaeth**. Yn benodol, nodwyd y byddai'r cynigion yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r cymunedau lleol a byd-eang, gan roi dealltwriaeth newydd iddynt o'r byd o'u cwmpas.

'Rwy'n credu y byddan nhw'n caniatáu i ddysgwyr gysylltu mwy â'u cymuned a deall y bobl oddi mewn iddi.' [Dysgwr]

5.2.2 Awgrymiadau pellach

Awgrymodd rhai ymatebwyr **bynciau ychwanegol y gellid ymdrin â hwy yn y cymhwyster**, i gefnogi thema cydraddoldeb ymhellach. Roedd yr awgrymiadau'n amrywiol ac roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Ystod ehangach o friffiau cymeradwy;
- Dehongliad ehangach o gydraddoldeb ac amrywiaeth, i gynnwys pob math o amrywiaeth yn y gymuned leol;
- Cysylltu'r mathau o gydraddoldeb a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn benodol â fframweithiau hawliau dynol;
- Mynd i'r afael â heriau sy'n wynebu cymunedau lleol yng Nghymru yn benodol; a
- Sicrhau bod dysgu'n cwmpasu amrywiaeth ehangach o gyd-destunau a chyfleoedd ar draws gwahanol sectorau (e.e. gwirfoddoli, gofalu, gweithgareddau creadigol, cyfleoedd yn y sector preifat, gwleidyddiaeth).

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod **angen sicrhau bod y cymhwyster yn hygyrch i bob dysgwr**. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y darperir yn ddigonol ar gyfer anghenion dysgu pob myfyriwr, gan gynnwys rhoi cymorth i ddysgwyr ag ADY, y rhai sy'n tueddu i berfformio'n is neu'n uwch mewn meysydd pwnc eraill a'r rhai o wahanol gefndiroedd. Gallai'r cymorth a ragwelir gynnwys adnoddau ychwanegol, cymorth un-ac-un a mwy o her i rai disgyblion.

'Mae'r argyfwng iechyd Covid-19 presennol wedi effeithio'n fawr ar y dysgwyr hynny o gefndiroedd difreintiedig, yn enwedig pan gaewyd ysgolion, a dysgu'n cael ei wneud o bell. Effeithiwyd yn arbennig ar y disgyblion hynny nad allent gael at galedwedd TG (cyfrifiadur, gliniadur) heb gysylltiad â'r rhyngrwyd. Gan fod y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn canolbwyntio ar ddatblygu annibyniaeth ac ymreolaeth dysgwyr, mae'n hanfodol bod gan y rhai o gefndiroedd difreintiedig yr hyn sy'n angenrheidiol i gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch hyd eithaf eu gallu. Gallai hyn gynnwys cael at gyllid i gefnogi pobl ifanc i ymgymryd â gwaith prosiect penodol, ac i ymgymryd â gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.' [Undeb athrawon]

Ystyriwyd hefyd fod **cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth** yn ystyriaeth allweddol ar gyfer cydraddoldeb. Pwysleisiodd ymatebwyr fod rhaid i'r cymhwyster fod ar gael yn gyson ledled Cymru i safon uchel er mwyn iddo gefnogi cydraddoldeb ymhlith dysgwyr. Amlygwyd bod yn rhaid i ansawdd yr addysgu fod yn gyson ar draws darparwyr a rhanbarthau, a bod rhaid i bob darparwr gael adnoddau priodol i gyflenwi'r cymhwyster.

5.3 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Dewisodd cyfanswm o 130 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae dros draean o'r ymatebwyr naill ai:

- Wedi mynegi cytundeb cyffredinol â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a/neu'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad heb roi unrhyw sylwadau pellach; neu
- Wedi dweud eu bod yn ansicr neu nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.

Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n codi amlaf yn y sylwadau eraill.

5.3.1 Barn ar yr asesiad effaith

Ar adegau, cytunodd yr ymatebwyr y byddai'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad yn **helpu i hyrwyddo'r Gymraeg**, yn enwedig drwy hybu ymwybyddiaeth am yr iaith. Dywedasant y byddai'r cynigion yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a bod y cynigion yn dangos ffocws clir ar y Gymraeg (er enghraifft drwy gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

'Credaf fod y newidiadau arfaethedig wedi cadw pwysigrwydd y Gymraeg mewn golwg, a chredaf nad yw'r newidiadau hyn yn llesteirio, ond yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg.' [Dysgwr]

'Mae ffocws ar y Gymraeg yn amlwg drwy gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r cyfle i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster hefyd wedi cael ei ystyried.' [Darparwr AB]

Dywedodd ymatebwyr hefyd fod dysgu am **ddiwylliant Cymru (gan gynnwys y Gymraeg) yn bwysig i ddysgwyr**. Ystyriwyd bod diwylliant, hunaniaeth a hanes lleol Cymru yn bynciau gwerthfawr i'w hastudio yn y THS Uwch ac ystyriwyd bod y Gymraeg yn elfen graidd. Eglurodd ymatebwyr y byddai astudio pynciau o'r fath yn sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cymunedau lleol ac y byddent yn meithrin gwerthfawrogiad o ddiwylliant ac iaith Cymru.

'Mae gennym iaith a diwylliant y dylem fod yn addysgu eraill amdanynt, ond peth anodd yw hynny pan nad yw'r diwylliant Cymreig fel arfer yn rhan o'n haddysg! Byddai hyn yn ffordd wych o allu cysylltu â'n gilydd a helpu eraill i ddeall ein diwylliant a'n cefndir ychydig yn fwy.' [Dysgwr]

Dywedodd nifer fechan nad oedd y Gymraeg fel petai wedi'i thrafod rhyw lawer yn y cynigion. Teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai angen sylwadau pellach ar y Gymraeg yn y cynigion eu hunain cyn y gallent roi sylwadau ar yr Asesiad Effaith.

Manteisiodd eraill ar y cyfle hwn i fynegi barn **nad yw'r Gymraeg yn arbennig o berthnasol i'r THS Uwch, neu o leiaf na ddylai fod yn flaenoriaeth** yn y cymhwyster. Teimlai'r ymatebwyr hyn na ddylai'r THS Uwch ganolbwyntio ar y Gymraeg ar draul unrhyw feysydd sgiliau eraill. Dywedodd rhai hefyd y dylai'r Gymraeg fod yn ddewisol mewn addysg yn gyffredinol, sydd hefyd yn berthnasol i'r THS Uwch, neu roeddent yn beirniadu gwerth y Gymraeg yn gyffredinol yn y gymdeithas ehangach.

'Rwy'n credu nad yw hyn mor hanfodol â'r ystyriaethau eraill, yn enwedig gan fod angen i lawer o ddysgwyr adael Cymru ar gyfer eu haddysg bellach.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

5.3.2 Awgrymiadau pellach

Awgrymodd nifer fechan o ymatebwyr ffyrdd o **ennyn diddordeb pellach dysgwyr yn yr iaith, gan gynnwys sut y gellid datblygu cynnwys y THS Uwch ymhellach** a sut y gellid integreiddio'r Gymraeg yn y cymhwyster. Roedd enghreifftiau'n cynnwys astudio rhyw ran o'r cymhwyster yn y Gymraeg. Rhoddodd un ymatebydd sylwebaeth fanylach, gan awgrymu y gallai'r THS Uwch:

'gyflwyno ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dwyieithrwydd i bob dysgwr er enghraifft... gallech ofyn iddynt werthuso gwerth y brand Cymreig i fusnes neu gynnyrch, neu gyflwyno gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog. Pan fydd y dysgwr yn cwblhau archwiliad sgiliau gallech ofyn iddo archwilio ei sgiliau Cymraeg a sut y gallai ddatblygu'r sgiliau hynny... gallech ofyn iddo ymchwilio i'r ddarpariaeth Gymraeg [mewn addysg uwch], ysgoloriaethau Cymraeg sydd gan Brifysgolion yng Nghymru neu gymharu costau astudio mewn Prifysgol yng Nghymru a'r tu allan i Gymru.' [Darparwr AU]

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen am **adnoddau ac arweiniad dwyieithog** i gefnogi'r THS Uwch newydd. Nodwyd bod yn rhaid darparu adnoddau ac arweiniad o'r fath mewn pryd, gyda'r adnoddau Saesneg a Chymraeg yn cael eu darparu ar yr un pryd. Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai dysgwyr sy'n astudio'r THS Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg fod o dan anfantais os nad oes adnoddau cynhwysfawr o ansawdd uchel ar gael neu os oes rhaid i ddysgwyr ac athrawon ddibynnu ar adnoddau Saesneg. Mae hyn yn cynnwys adnoddau am bynciau fel y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

'Mae annhegwch posibl i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod llai o adnoddau dysgu, ymchwil a thrwy brofiadau ar gael yn Gymraeg ar draws yr ystod eang o themâu, pynciau a chyd-destunau a allai berthyn i gwmpas y cymhwyster hwn. Mewn gwirionedd, bydd hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn ymgymryd â rhywfaint o'r dysgu ar gyfer eu cymhwyster (e.e. ymchwilio i ffynonellau ehangach) yn Saesneg.' [Sefydliad rhanddeiliaid addysg]

Ar adegau, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod yn rhaid rhoi **cymorth a chyfleoedd i gwblhau'r cymhwyster yn eu dewis iaith**. Er bod ymatebwyr yn cydnabod bod y cynigion yn mynd i'r afael â'r gofyniad hwn, maent hefyd yn gwneud awgrymiadau am gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i astudio'r THS Uwch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi dysgwyr gyda'u llythrennedd a'u hyder Cymraeg, a allai rwystro rhai rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhoi cymorth i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ychwanegol y gallai fod eu

hangen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, megis sgiliau cyfieithu ac ymgyswrtio â geirfa briodol yn y ddwy iaith; a sut y gallai'r cymhwyster gydnabod y baich gwaith ychwanegol sydd ei angen ar waith o'r fath.

6. Y camau nesaf

Ochr yn ochr â'r dadansoddiad hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi dogfen ar wahân yn manylu ar ei benderfyniadau mewn perthynas â'r THS Uwch newydd a Bagloriaeth Cymru Uwch. Wrth wneud ei benderfyniadau, mae Cymwysterau Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae dogfen penderfyniadau Cymwysterau Cymru ar gael i'w [darllen ar-lein](#).

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd Cymwysterau Cymru hefyd i ymatebwyr rannu barn i'w helpu i wneud penderfyniadau am deitl y cymhwyster newydd. Ceir trafodaeth ar yr ymatebion hyn hefyd yn y ddogfen benderfyniadau.

Ar ôl gwneud ei benderfyniadau, mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu gweithio gyda'r corff dyfarnu i ddatblygu'r cymhwyster newydd i baratoi i'w gyflwyno i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2023.

Ochr yn ochr â'i gwaith ar y THS Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch, mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi bod yn ystyried y fersiwn gyfredol o'r THS Genedlaethol / Sylfaen a Bagloriaeth Cymru Genedlaethol/Sylfaen yn rhan o'i waith yn edrych ar gymwysterau dysgwyr yng Nghymru rhwng 14 ac 16 oed yn y dyfodol. Dros y misoedd nesaf, bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio ei gynigion.

Gallwch ddarllen mwy am waith Cymwysterau Cymru i ddiwygio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 - 16 oed ar [wefan Cymwysterau Cymru](#).